
# ECO'R WYDDFA

RHIF 16 | MEHEFIN 1977 | PRIS 10c


# DYFOD AC YNA FFARWELIO

Ffarwelio, ych! na lanhaent

**Tipyn o ddychryn i drigolion y fro oedd ymddangosiad disymwth y Sipsiwn yn yr hen lôn ym Mhenllyn yn ystod y mis diwethaf. Ond yr un mor ddisymwth 'diflannodd' y carafanau o'r safle cyn diwedd y mis.**



**Beirniadwyd y Cyngor Sir yn llym iawn gan rai o drigolion y pentrefi cyfagos, nid yn bennaf am iddynt olchi eu dwylo o'r sefyllfa ym Mhenllyn ond am iddynt "oedi ynglŷn â sefydlu safleoedd addas swyddogol i'r sipsiwn". Mae'n bur debyg na fyddai'r broblem yma wedi codi pe bai lle swyddogol i'r sipsiwn rywle yn y sir.**

**Cafodd y broblem gymhleth yma ei datrys yn syml iawn gan yr union rai a'i hachosodd. Aeth y sipsiwn i ffwrdd, a gadael pawb yn hapus – pawb ond trigolion Penllyn a Draenog.**

**Fel y dengys un o'r lluniau daeth y carafanau yma i aros yn un o'r mannau prydferthaf o Gymru. Nid yn unig fod eu hymddangosiad mewn llecyn mor brydferth yn friw i'r llygaid – ond ceisiwch chi neu rywun arall o'r fro gael caniatâd adran Gynllunio y Cyngor Sir i adeiladu tŷ neu osod un garafan yn y fan a'r lle. Nid un garafan ddaeth i Benllyn ond deg ar hugain!**

**Fel y dengys y llun arall – aethant i ffwrdd gan adael eu baw a'u budreddi ar eu hôl. Oes gan unrhyw fod dynol, synhwyrol unrhyw fath o esgus dros lygru tir â'i faw ei hun yn yr oes oleuedig hon? Sylwch yn fanwl ar y llun – mae yna blant yn chwarae ynghanol y budreddi.**

**Onid yw'r ddau lun yma yn ddigon o rybudd i'r Cyngor Sir neu'r Faenol neu Glynllifon neu pwy bynnag bia'r lle?**

**Mae Draenog am awgrymu i'r Cynghorwyr Sir roi eu pennau wrth ei gilydd yn sydyn i benderfynu ar safle swyddogol i'r sipsiwn cyn i rywun arall ddeffro ryw ben bore a ffendio hanner cant o garafanau sipsiwn yn eu gardd ffrynt.**



# Gemau Giamocs

CYNTA' I'R FELIN!

Y mae pwyllgor Carnifal Llanberis yn estyn gwahoddiad i'r timau canlynol i'r gystadleuaeth 'Gemau Giamocs' eto eleni:

**Tîm Llanberis**
**Tîm Cwm-y-glo**
**Tîm Deiniolen**
**Tîm Llanrug (Enillwyr y gwpan y llynedd)**

A wna ysgrifenyddion y 4 tîm uchod gadarnhau eu bod yn derbyn y gwahoddiad trwy gysylltu â Mr. Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Stryd Warden, Llanberis erbyn Mehefin 7fed. Bydd yn gyrru'r manylion iddynt ymhellach ymlaen.

Y mae dau le arall yn y gystadleuaeth eleni a bydd y rhain yn mynd i'r ddau dîm cyntaf i ysgrifennu at Mr. Iwan Williams yn mynegi eu dymuniad i gymryd rhan. Y mae'r ddau le yn agored i unrhyw dîm pentref o ardal Eco'r Wyddfa. Os bydd mwy na dau gais yn cyrraedd yr un diwrnod,y ddau gyntaf a agorir fydd yn llenwi'r ddau le.

Cofiwch ysgrifennu at **Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Stryd Warden, Llanberis.**

# Llwyddiant Yr Ysgolion Meithrin

**Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Mudiad nos Iau, Mai 12ed, yn Neuadd yr Eglwys Pen-y-groes a daeth cynrychiolaeth gref yno o'r gwahanol gylchoedd meithrin.**

Croesawyd pawb yno gan y Llywydd, Mrs. Gwenda Davies, Tregarth ac yn arbennig y gŵr gwadd, Mr. Hywel D. Roberts, Cyfarwyddwr y Mudiad, Mrs. Ceinwen Davies, Swyddog Datblygu newydd yng Ngwynedd, a Mrs. Mair Jenkin Jones sydd newydd roi gorau i'r swydd honno ond yn dal i ofalu am Arfon a Dwyfor ar hyn o bryd.

Cafwyd adroddiad am flwyddyn lwyddiannus iawn gan y Llywydd – yr oedd 4 cwrs wedi eu cynnal a chan eu bod wedi bod mor lwyddiannus a phoblogaidd penderfynwyd cael 5 y flwyddyn nesaf. Yr oedd y sefyllfa ariannol yn un lewyrchus iawn hefyd a gofynnwyd i unrhyw gylch a oedd yn cael anawsterau ariannol gysylltu â'r ysgrifenyddes, Mrs. Eryl Roberts, Sycharth, Llanrug. Atgoffwyd pob cylch hefyd i ofyn i'w Cyngor Cymuned am gymorth ariannol i hybu'r gwaith, da a wneir gan y cylchoedd yn eu pentrefi. Cytunodd y Swyddogion i sefyll am flwyddyn arall ond penodwyd Mrs. Ann Roberts, Tal-y-bont yn Is-drysorydd.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mair Jenkin Jones fel gwerthfawrogiad o'i llafur di-flino yng Ngwynedd ond yn bennaf oll i ni yn Arfon. Cafwyd gair o ddiolch ganddi. Yna cyflwynodd y Llywydd y Swyddog Datblygu newydd ac atebodd Mrs. Ceinwen Davies gan ddweud y gobeithia ddod i'w gweld ac i'w hadnabod i gyd yn y dyfodol agos. Yna cafwyd anerchiad ddiddorol iawn ar waith y mudiad gan y gŵr gwadd, Mr. Hywel D. Roberts. Amcan y Mudiad meddai yw hyrwyddo a lledaenu addysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly mae'n rhaid meddwl am ehangu'r gwaith a'r oriau er mwyn i'r plant gael clywed yr iaith yn gyson. Mae bron i 300 o gylchoedd yng Nghymru erbyn hyn a phob un yn cryfhau cymdeithas y plant, y rhieni a'r fro.

Diolchwyd i Mr. Roberts gan Mrs. Kathleen Jones, Caernarfon.

Enillwyd y wobr o £10 gan un o'r enw Eurwen o'r CEGB.

# Mast Pen Bigil

**Chwi gofiwch yn rhifyn 15 o *Eco'r Wyddfa* i Draenog yn ei golofn "Pen Bigil Yn Bresant Dolig" ddweud ei fod wedi bod mewn "Cyfarfod Agored" yn Llanberis. "Datgelwyd yno," medd Draenog, "y bydd mast Pen Bigil yn trosglwyddo lluniau lliw i'r pentref erbyn y Nadolig". Ychwanegodd Draenog hefyd, "efallai fis neu ddau ar ôl hynny".**

Mae'r Cynghorydd Jacob James, Deiniolen yn awyddus i sicrhau trigolion yr ardal y bydd y BBC yn trosglwyddo lluniau o orsaf Pen Bigil y Nadolig nesaf, ac nid "fis neu ddau ar ôl hynny."

Ym mis Ionawr y flwyddyn hon derbyniodd Mr. James lythyr oddi wrth Mr. G.N. Bath, Prif Beiriannydd Trosglwyddwyr y BBC yn ei sicrhau y bydd y tŵr yn cael ei lunio yn ystod misoedd Ebrill Mai a Mehefin. Dilynir hyn gan y gwaith adeiladu ym misoedd Gorffennaf ag Awst. Rhydd hyn ddigon o amser i osod yr offer ac hefyd i'r gwaith profi cyn Nadolig 1977.

Ym mis Tachwedd, 1974, casglodd Mr. James bron i 1,400 o enwau o ardal Deiniolen a Llanberis yn erbyn dyfarniad yr hen Gyngor Sir i wrthod gosod mast ar Ben Bigil. Bu'n llwyddiannus, a byth oddi ar hynny mae wedi cysylltu'n rheolaidd gyda'r BBC yn eu hannog i symyd ymlaen gyda'r gwaith.

# ECO'R WYDDFA

RHIF 16 MEHEFIN 1977

Golygydd:
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.


## CYFRANIADAU

**Ein diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynnal yr *Eco*.**

**£2:** *Mr. W.J. Jones, Talmignedd Isaf, Nantlle*

**£1:** *Miss Ellen Jones (gynt o Glan Llyn, Llanrug) yn awr o Trelawnyd.*

**£1:** *Mrs. Gwen Owen, 5, Heol Ioan, Llanrwst (gynt o Fachwen).*

**£1:** *Mrs. D.M. Jones, "Glennydd", Lôn-y-Bryn (Fflatiau) Caernarfon (er cof am ei rhieni, Mr. a Mrs. W.T. Jones, Brynrefail, Ysgoldy a Chlwt-y-bont).*

**£1:** *Di-enw, Dinorwig.*

## LLWYDDIANT YN YR ARHOLIAD SIROL

**Llongyfarchiadau i'r plant canlynol o'r fro a fu'n llwyddiannus yn Arholiad Sirol Ysgolion Sul, Y Methodistiaid Calfinaidd yn Arfon. Yr Arholwr oedd Y Parch. Richard Jones, MA., BSc., Trefnant. Cynhaliwyd y Cyfarfod Gwobrwyo yng Nghapel Jeriwsalem, Penmaenmawr, ddydd Mawrth, Mai 17.**

**Dan 9 oed**

Einir Parri, Ceunant (1af drwy Arfon); Vaughan Hughes, Tanycoed; Carys Lloyd Jones, Tanycoed; Petula Williams, Llanrug; Caryl Lloyd Pugh, Llanrug.

**9 – 11 oed**

Gwyn Parry, Bethel, Waunfawr; Nigel Wyn Griffith, Llanrug.

**11 – 14 oed**

Enid Wynne, Tanycoed; Michael Parry, Bethel Waunfawr.

*Coleg Bala-Bangor,*
*Bangor.*

*Annwyl Olygydd,*

*Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at y ffaith fod saith o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd yn disgwyl eu prawf o flaen Llysoedd y Goron yng Nghaernarfon a'r Wyddgrug. Y saith a wnaeth eu safiad yw Arfon Jones, Dinbych (arwyddion ffyrdd — Llys yr Wyddgrug), a'r chwech arall fydd yn ymddangos yng Nghaernarfon fydd Siôn Aled, Porthaethwy; Vaughan Roderick, Caerdydd; Richard Roberts, Llanrug; Ifanwy Rhisiart, Waunfawr; Angharad Tomos, Llanwnda; Teresa Pierce, Waunfawr (achos meddiannu tŷ haf ym Mhorthmadog). Fe gofiwch fod Teresa ar hyn o bryd yn treulio chwe mis yng ngharchar Risley am ei rhan yn yr ymgyrch ddarlledu.*

*Fel y sylweddolwch, mae'n siŵr, fe fydd cryn draul ariannol ynghlwm wrth yr achosion hyn. Dymuniad y saith yw ein bod yn sefydlu 'Cronfa Llys y Goron' rhag ychwanegu at ddyled hollbresennol y Gymdeithas.*

"I'r diawl â'r fath siarad, y rhain sydd yn rhydd;
'Rhain sydd yn sefyll dros y Gymru a fydd!"

*A wyt ti'n sefyll ar yr un tir a thros yr un tir â'r rhain? Os wyt, byddaf yn dra diolchgar o dderbyn dy gyfraniad yn y cyfeiriad uchod, gan nodi 'Cronfa Llys y Goron'.*

*Ar ran Cymdeithas yr Iaith,*
*Siôn Alun*
*(Trysorydd)*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

## DIM DIOTA YN DINORWIG

**Cyflwynir deiseb i'r Cynghorydd Sir lleol, Mrs. Pat Larsen, yn y dyfodol agos, wedi ei harwyddo gan drigolion Dinorwig yn protestio yn erbyn y bwriad i werthu diod feddwol yn Hafodty. Casglwyd yr enwau mewn cyfnod byr o dri diwrnod gan bobl ifanc a rhai mewn oed. Cafwyd ymateb gant y cant oddi wrth y Cymry Cymraeg yn y pentref.**

# LLYTHYRAU

*Llygad yr Haul,*
*Penisarwaun,*
*Caernarfon.*

*Annwyl Etholwyr,*

*Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb a bleidleisiodd i mi yn yr Etholiad i ddewis cynghorydd Gwynedd. Diolchaf hefyd am y croeso a gefais gan y rhan helaeth ohonoch tra'n canfasio; hefyd i'r ymgeiswyr eraill a fu mor foneddigaidd yn eu hymgyrch.*

*Yn bennaf, mawr yw fy nyled i'r llu o weithwyr o'r chwe pentref a sicrhaodd fuddugoliaeth trwy eu hymdrechion diflino.*

*Bwriadaf gynnal cymorthfeydd yn y pentrefi fel y gellwch drafod eich problemau. Wrth reswm gellwch hefyd ffonio Llanberis 533 neu alw yn Llygad yr Haul.*

*Yn bur,*
*Pat Larsen.*

*DOD Â'R PELL YN AGOS*

*71, Bramham Drive,*
*Harrogate,*
*GG3 2TZ.*

*Annwyl Olygydd,*

*Gair yn fyr i ddiolch i chi am y rhifau o* **Eco'r Wyddfa.** *Y mae ynddynt gryn dipyn o wybodaeth diddorol gyda newyddion lleol manwl iawn. Fe garwn dalu teyrnged i bawb sy'n gysylltiedig â'r cyfresi. Mae gwerth enfawr ynddynt tuag at ddod â Chymry ar wasgar yn agos at eu hanwyliaid. Dymunaf lwyddiant i'ch ymdrechion.*

*Stanley Griffiths*

# Fedrwch Chi Helpu?

*Gyrrwch y wybodaeth i'r golygydd.*



**Llun o Ysgol Llanddeiniolen wedi ei yrru i mewn gan Mr. Sam Morris, Y Fachell, Bethel. Oes rhywun yn gwybod pa flwyddyn y tynnwyd y llun? Mae yma bedair chwaer a dau frawd. Pwy oedd yr athrawon?**



**Llun o'r chwarel wedi ei yrru i'r Eco gan Mrs. Mair Roberts, o Cheadle. Wyr rhywun yn rhywle rywbeth am y llun? Pwy ydyw rhai ohonynt? Ymhle y tynnwyd y llun?**

**Diolch i chwi'r Gwerthwyr a'r Prynwyr am eich cefnogaeth**

**Daw y Rhifyn Nesaf allan ar ddydd Iau, Mehefin 30ain. Y deunydd i law'r golygydd erbyn dydd Mercher, Mehefin 22ain.**


**AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO ...............**

*Eric Morris*



**Bwsiau Arfon**
**LLANRUG**

**FFÔN WAUNFAWR 254**

# BETHEL

**CYMANFA'R YSGOLION SUL –** Yn ystod y mis cynhaliwyd Cymanfa Ysgol Sul y Cysegr a Chymanfa Ysgol Sul Bethel.

**Cymanfa Capel Cysegr:**

Dydd Sul Mai 1af cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth Deiniolen yng Nghapel Ysgoldy, Deiniolen. 'Roedd canlyniadau yr Arholiad Llafar a'r Arholiadau Ysgrifenedig yn dangos fod plant y Cysegr wedi gwneud gwaith ardderchog.

Dyma'r canlyniadau:

**Arholiad Llafar:**

**dan 4 oed: 1af** Rhian Hughes, Awen Williams, Gwen Jones, Nia Hughes, Cheryl Roberts. **Dan 5: 1af:** Hugh Williams, Nicky Evans, Carys Owen, Bethan Roberts, Angharad Elis. **Dan 6: 1af:** Mark Evans, Aled Jones, Carys Evans, Lyn Hardwidge, Elwyn Parry. **2il:** Alison Jones, Mark Hughes, Andrew Jones. **Dan 7: 1af:** Helen Jones, Alan Williams. **2il:** Russel Williams, **3ydd:** Bethan Roberts. **Dan 8: 2il:** Clive Roberts, Dewi Wyn Williams. **3ydd:** Dylan Wyn Roberts. **Dan 9: 1af:** Richard Williams, Guto Bebb. **2il:** Mair Owen Hughes, **3ydd:** Ruth Roberts, Myfyr Wyn Jones. **Dan 10: 3ydd:** Julie Wyn Roberts. **Dan 11: 1af:** Ceri Evans, Shan Evans, Gwenno Bebb. **2il:** Awen Jones. **Dan 12 oed: 1af:** Tegwen Williams.

**Arholiad Ysgrifenedig:**

**1af:** Gwenno Bebb. **2il:** Shan Evans. **4ydd:** Awen Jones. **6ed:** Ceri Evans.

**Cymanfa Capel Bethel:**

Dydd Sul Mai 15fed cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth Bethel (A) yng Nghapel Bethel. Yr arweinydd oedd Mr. T. Emrys Lewis, Caernarfon a'r organyddes oedd Mrs. Beti Owen, Crud yr Awel.

Yng nghyfarfod y prynhawn rhoddwyd tystysgrifau i'r canlynol am fynychu'r Ysgol Sul yn rheolaidd drwy'r flwyddyn:

Llion Tudur Jones, Ceri Hughes, Angharad Price, Dafydd Llewelyn Jones, Gareth Owen, Eria Wynn Davies, Gwenan Davies, Euron Jones, Ian Mercer, Meinir Owen, Mari Owen, Gweno Owen, Gerwyn Jones, Richard Sharpe, Kelvin Hughes, Rhian Davies, Harri Owen, Rhys Williams, Michael Evans, Gareth Hughes, Paul Humphreys, Peter Sharpe, Andrew Evans, Alan Owen, Neil Jones, Susan Bailey, Meirion Wyn Jones.

Ysgrifenyddion y Gymanfa oedd Mrs. Beti Owen, Crud yr Awel a Mrs. Eirlys Sharpe, Llys Elen. Ar ôl cyfarfod y prynhawn cafwyd te wedi ei ddarparu gan chwiorydd Bethel.

**MERCHED Y WAWR –** Nos Fercher 11eg o Fai yn yr ysgol, cafwyd cyfarfod blynyddol y gangen gyda Mrs. Eunice Williams, Bro Rhos yn llywyddu. Cafwyd adroddiad ariannol gan y Trysorydd, Mrs. Anne Elis a diolchwyd iddi gan Mrs. Mair Price, Tan y Ffordd.

Yn dilyn yr adroddiad aed ati i ddewis swyddogion y gangen am y flwyddyn nesaf sef:

**Llywydd:** Mrs. Shirley Evans, Erwau'r Gwynt; **Is-lywydd:** Mrs. Megan Evans, Hafod Shalome; **Ysgrifennydd:** Mrs. Eirlys Hughes, Rhoslan; **Trysorydd:** Mrs. Beti Owen, Crud yr Awel; **Is-drysorydd:** Mrs. Gwyneth Jones, Fachell. Yn ogystal â'r swyddogion dewiswyd y canlynol ar y pwyllgor: Mrs. Siân Hughes, Brynhyfryd; Mrs. Madge Williams, Hafod; Mrs. Mair Price, Tan y Ffordd; Mrs. Ellen Ellis, Drws y Coed; Mrs. Helen Bebb, Llwyn Eithin; Mrs. Elizabeth Hughes, Bethlyn; Mrs. Gwyneth Williams, Llain yr Ardd; a Mrs. Anne Elis, Sycharth.

Yn ystod y cyfrif 'roedd Mrs. Mabel Jones wedi trefnu cwestiynau i'r aelodau gyda Mrs. Megan Evans yn ei chynorthwyo.

Y gwestwragedd oedd Mrs. Williams Cefn Gwyn a Mrs. Evans, Parciau Rhos. Enillwyd y raffl gan Mrs. Williams, Tŷ Newydd.

Nos Iau, Mai 26 bu rhai o'r gangen yn ymweld â changen Waunfawr.

Nos Fercher y 15fed o Fehefin, wythnos yn hwyrach na noson arferol y gangen fe drefnir y trip blynyddol. Gofynnir i'r rhai sy'n dod ar y trip roi eu henwau i Mrs. Helen Bebb, Llwyn Eithin.

**PERSONOL –** Mae Gwilym H. Williams, Tŷ Newydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Dymunir gwellhad buan iddo. Hefyd mae Eira Wyn Davies, gynt o Brynhyfryd, 'nawr o Gaernarfon, yn Ysbyty Eryri yn disgwyl triniaeth i'w chlun; dymunir gwellhad buan iddi hithau.

**LLONGYFARCHIADAU –** i Mr. a Mrs. G.H. Williams, Tŷ Newydd ar enedigaeth merch fach, Donna Marie, ar Ebrill 8fed.

**CYDYMDEIMLO –** Mae'n cydymdeimlad llwyraf â Mrs. Dorothy Roberts, Karina, Stad Eryri a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Mae'n cydymdeimlad hefyd â theulu'r diweddar Mr. John Owen, Tyddyn Oer.

**YR YSGOL –** Dydd Mawrth, Mai 17 cymerwyd gwasanaeth boreol yr ysgol gan Y Parch. Richard Jones, Y Felinheli.

**GWERTHU LLYFRAU –** Casglwyd gwerth £87.56 o Archebion gan yr Ysgol yn yr Ymgyrch Llyfrau Cymraeg.

*Mr. G.R. Jones, prifathro Ysgol y Garnedd, Bangor yn annerch yng nghinio* ***blynyddol Clwb y Rhos a gynhaliwyd ym Mhlas Tan Dinas yn ddiweddar.***



# NANT PERIS

**LLONGYFARCHIADAU –** i blant Rehoboth ar eu gwaith da yn yr arholiadau llafar ac ysgrifenedig a gynhaliwyd ynglŷn â Chymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Llanberis ar y Sul cyntaf o Fai. Gwnaeth y plant eu gwaith yn hynod o dda a haeddant eu canmol am eu llafur. Diolch i'r arweinydd yntau, Mr. Idwal Roberts, Preswylfa, am ei waith a llongyfarchiadau iddo yntau . Cafwyd canu da er fod y gynulleidfa yn llai a'r dynion yn brin.

**COLLED FAWR –** a gafodd y Nant ym marwolaeth Miss Nellie C. Williams, 2 Tan y Bryn fore Sul Mai 15. Hannai o un o hen deuluoedd y Nant a bu fyw yma gydol ei hoes. Rhoddwyd teyrnged uchel iddi yn y gwasanaeth yn Eglwys Sant Peris ar ddydd ei hangladd. Tystiai fod ei gofal am Eglwys y Nant yn agos iawn at ei chalon a'i gofal amdani yn gydradd â'i gofal am ei chartref. Gedy fwlch mawr ar ei hôl yn yr Eglwys ond ar aelwyd Tan y Bryn bydd y bwlch mwyaf. Derbynied y teulu, ei dau frawd, a'i dwy chwaer ein cydymdeimlad dwysaf â hwy yn eu profedigaeth. Profodd y dyrfa fawr a daeth i dalu'r gymwynas olaf iddi ei phoblogrwydd a'r parch iddi yn yr ardal. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent y Nant ar y 18fed o Fai.

**CROESO ADREF –** i Siân Elen, Llys Awel adref o'r Ysbyty ym Mangor, ac yn falch o'i gweld yn gwella mor dda. Croeso mawr Siân, a brysia fendio'n iawn.

**CROESO –** hefyd i'r Parch. J. Alwyn Parry, BA., BD., ar ei ymweliad blynyddol â ni . Cawsom Sul hyfryd yn ei gwmni a balch oeddym o'i weld ef a Mrs. Parry yn edrych mor dda. Mawr hyderwn y bydd iddynt gael blynyddoedd eto o iechyd i wasanaethu yn y Winllan.


STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790
BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

S. JONES
CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
(WHOLESALE FRUITERER)
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

YN EISIAU
'Single Wardrobe' – Ffôn: Padarn 340.


# YR WYDDFA A'I DRINGWYR

gan W.J.JONES
Talmignedd, Nantlle.

**MYNYCH y darllenwn yn y Newydduiaduron, a chlywed ar y radio, am y trychinebau mawr a pharhaus sy'n digwydd ar yr Wyddfa i'r ymwelwyr a'r dringwyr yn y cyfnod rhyfedd hwn.** Ieuenctid wedi dringo i binaclau prif Golegau ein gwlad yw'r rhelyw o'r rhai sy'n colli eu bywydau, gwaetha'r modd.

Un peth yw dringo grisiau addysg, ond rhyfyg noeth yn fy marn i yw ceisio dringo a choncro clogwyni megis 'Clogwyn Du'r Arddu' a'i debyg. Coleg anian gafodd yr 'hen fugeiliaid' gynt, ac ni fu erioed sôn am yr un ohonynt yn colli eu bywydau wrth ddilyn eu goruchwyliaeth.

Y mae un gân yn dwyn y teitl 'Llwybr yr Wyddfa' yn fy meddiant. Rwyf wedi canu llawer arni flynyddoedd yn ôl, ac wedi gwrando ar gantorion o fri yn ei chanu o dan deimlad dwys, yn enwedig y rhan ohoni sy'n darlunio'r Bugail ar daith olaf bywyd. Dyfynnaf ychydig eiriau ohoni:

Wrth droi yn ôl a blaen o hyd,
Ar ysgwydd noeth yr Wyddfa,
Yng ngolwg pell ei gartref clyd,
Disgynnodd yn yr eira.
Ei synnwyr aeth ar ffo'r pryd hyn,
A chysgodd gan freuddwydio
Nes aeth yr iâ yn amdo gwyn
I gau yn dyn amdano.

Ni allaf lai na chredu fod gwirionedd yn y stori frawychus hon, neu ni fuasai'r bardd byth wedi llwyddo i dynnu darlun mor fyw ac mor effeithiol o'r digwyddiad anhapus hwn. Ceisiaf innau dynnu darlun ar gân o ddringwr ieuanc tra gwahanol yn colli ei fywyd beth amser yn ôl drwy herio Clogwyn Du yr Arddu ar ddydd yr Arglwydd.

**Y DRINGWR**

Dringo er yn blentyn dros ganllawia'r crud,
Dringo yn ei rwymyn, dyna'i reddf a'i fryd,
Dringo yn ei ddagrau'n flin ar lin ei Fam,
Blino ar deganau, heb egluro pam.

Camu dros y rhiniog, dringo dros y glwyd,
Crwydro'r stryd yn dalog yn ei ieuanc nwyd,
Colli yn y dyrfa, ffaelu'r ffordd yn ôl,
Dyna gychwyn gyrfa'r dringwr bychan ffôl.

Dringo grisiau addysg yn yr ysgol ddydd,
Awydd bod yn hyddysg yn y pethau cudd,
Dringo gris athroniaeth, deisyf am yr awr,
Graddio mewn gwyddoniaeth am y cread mawr.

Casglu sawl gwybodaeth yng ngholegau'r wlad,
Profi byd anturiaeth oedd ei wir fwynhad,
Elfen anturiaethwr fagwyd yn ei fryd,
Mynnai fod yn ddringwr ar fynyddoedd byd.

Crwydro i Eryri ar y sanctaidd ddydd,
Herio gwneud gwrhydri ar y clogwyn cudd;
Brwnt yw Craig yr Arddu pan rydd her yn ôl;
Wrth ei throed yn gwaedu mae y dringwr ffôl.

*W.J.Jones.*

# PENISARWAUN

**WYTHNOS GARNIFAL** – Cynhelir wythnos garnifal Penisarwaun yn ystod wythnos 19eg o Fehefin i'r 26ain. Bydd poster yn Siop Gron yn rhoi manylion. Ymysg y gweithgareddau bydd Noson o Chwaraeon a Noson Bêl-droed, hefyd bydd Tîm Pêl-droed Merched yn mynd i gystadlu yn Llanrug ar Fai 30ain.

**LLWYDDIANT ETHOLIAD** – Llongyfarchiadau i Mrs. Pat Larsen ar ei llwyddiant yn ennill sedd ar Gyngor Gwynedd.

**MRS. MARY WILLIAMS, – Tyddyn Waun.** – wedi 22 wythnos yn yr ysbyty mae Mrs. Williams wedi dychwelyd i Benisarwaun i aros gyda'i merch a'r teulu yng Nglyn Euron. Mae Mrs. Williams a Mrs. Eirione Williams yn diolch yn fawr i bawb a fu mor garedig yn ystod gwaeledd Mrs. Mary Williams.

**BRENDA WILLIAMS – Llwyn Derw** – Ar y 30ain o Ebrill yn Eglwys St. Andrews, Clewer Windsor, priodwyd Brenda merch Mr. a Mrs. Peter Williams, Llwyn Derw gyda Mr. Michael Gerard O'Shea. Mae pawb ym Mhenisarwaun yn dymuno'n dda i'r pâr ifanc.



**Y GOG A'R WENNOL** – Er i'r gwanwyn fod yn hwyr eleni a'r eira'n parhau ar y mynyddoedd, mae'r gog a'r wennol wedi cyrraedd. Yr oedd y gog yn canu'n braf yn Y Waun Penisarwaun a phawb yn brysur yn troi eu harian am lwc, ar y 30ain o Erbill. Gwelwyd y wennol ym Mhontrhythallt ar y 26ain o Ebrill.

**LLWYDDIANT ATHLETAIDD** – Llongyfarchiadau i Carys Wyn merch Mr. a Mrs. Ken Williams ar ei llwyddiant ym Mabolgampau Ysgol Brynrefail. Dyma rai o'i champau:
**Genethod Iau Isaf: 1. Hyrddio'r Pwysau: 7.19 medr. Record newydd. 2. Taflu'r ddisgen: 15.3 medr. Record newydd. 3. 100 medr: 15.5 eiliad, 1af. 4. 200 medr: 32.4 eiliad. Record newydd.**

**ARHOLIADAU** – Mehefin yw mis arholiadau ac mae amryw o bobl ifainc Penisarwaun yn eistedd arholiadau. Dymuna'r pentrefwyr bob llwyddiant iddynt i gyd.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cynhaliwyd cyfarfod o Sefydliad y Merched yn yr ysgol nos Fawrth, Ebrill 26. Llywyddwyd gan Mrs. E. Jones, Cae Corniog. Croesawyd tair aelod newydd i'n plith, sef Mrs. Jean Roberts a Mrs. Ann Evans, Bryn Eglwys a Mrs. Elinor Williams, Bryn Rhydd. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr. Vivian Jacques sydd yn gweithio gyda'r Llu Awyr. Dangoswyd ffilm ar ailadeiladu Eglwys Gadeiriol Coventry. Yr oedd y lliwiau'n effeithiol a phawb yn canmol y ffilm drwyddo draw.

Diolchwyd gan Mrs. Mary Davies ac enillwyd y raffl gan Mrs. Percy Williams. Mrs. E. Porter, Mrs. K. Williams a Mrs. Betty Roberts oedd yn gofalu am y te.


Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Mai 24 a disgwylir Mrs. Hughes o Fethesda i ymdrin â'r cwestiynau a roir dan sylw yn yr Albert Hall yn Llundain y mis nesaf.

**CAPEL Y WAUN** – Derbyniwyd tair merch ifanc sef Ann Owen, Bronwen Rees Hughes ac Anwen Jones yn gyflawn aelodau yng Nghapel y Waen nos Sul Mai 15. Y Parch. George Brewer oedd yn gwasanaethu.

**EISTEDDFOD JIWBILI BLAENAU FFESTINIOG** – Gwnaeth Peredur Lynch yn ardderchog yn Eisteddfod y Jiwbili gan ei fod wedi dod yn gyntaf mewn pedair cystadleuaeth sef ar y Delyn, Piano, Adrodd a Chanu. Mab yw i Beryl Noel, Gwyddfor Penisarwaun gynt.

**LLONGYRACHIADAU** – i Alun Wyn Roberts, Dirprwy Brifathro Ysgol Maes Garmon ar ei benodi yn Ddirprwy Brifathro ar Ysgol Newydd Bodedern, Ynys Mon. Mab yw i Mr. a Mrs. Emrys Roberts, Tan y Fron, Dinorwig gynt. Un o Cae Corniog yw Mrs. Emrys Roberts.

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



## DRAENOG DAN-DIN

**STORI WIR!**

**Dynas o Lanberis wedi mynd am sit down i'r tŷ bach. Be' sy'n anghyffredin yn hynna me' chi? Dim byd ond fod y sêt arbennig oedd hi'n eistedd arni newydd gael ei pheintio!**

**DRAENOG**

Fuo gin i 'rioed ddim byd i ddeud wrth ffwtbol. Cofiwch chi, 'toes gin i ddim byd yn erbyn y gêm chwaith. Lot o betha' da yn perthyn iddi, a lot o betha drwg hefyd, a mi fedrwch ddadla fod hynna'n wir am bob dim bron.

Ma' gin i barch i griw o ddynion o Lanbêr sy'n rhedeg dau dîm o hogia ifanc. Ma' Draenog yn fodlon canmol weithia. Dyma chi ddynion sy'n fodlon rhoi eu hamser hamdden i fyny i feithrin a chynorthwyo plant y pentra i fod yn ffwtbolars y dyfodol.

Ond ma' isio pres i redag tîm a dwbl hynny i redag dau dîm. O lle ma' hwnnw'n dwad? Mi ddeuda' i wrtha chi – elw o £2 allan o gerdyn timau ffwtbol ma' nhw'n werthu bob nos Sadwrn, ac amball i gil-dwrn gan un neu ddau Samaritan Trugarog yn y pentra, a'u gwragedd nhw'n golchi'r shyrts i gadw'r costa i lawr.


## AR WERTH

Cerbyd baban ar gyfer dau blentyn, gyda lle i faban yn y cefn a phlentyn hyn yn y blaen. £18. Ffon: Waunfawr 545.
'Airer' trydan – £6. 4 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.


# Weddar Fforcast!

YN DILYN cais y golygydd am arwyddion tywydd yn yr ysgrif o "Gaban y Charelwr" y mis diwethaf, daeth cyfeilles a'r llu yma i mewn. Ein diolch iddi, a gobeithio y cewch chwithau bleser yn mynd trwyddynt. Ysgwn i a oes 'chwaneg?


### ARWYDDION O DYWYDD TEG

1. Yr haul yn glir, a'r awyr yn ddigymylau.
2. Os bydd yr haul yn gyrru y cymylau o'i flaen i'r gorllewin.
3. Os bydd cylch oddeutu yr haul ar ei godiad, a hwnnw yn diflanu yn raddol.
4. Pan fyddo yr haul yn machlud yn goch, tywydd teg, neu rew.
5. Pan fo y lleuad yn ymddangos yn glir dros dri diwrnod cyn y llawn, y mae hyn yn arwydd o dywydd da.
6. Cymylau yn ymddangos â'u hochrau yn felynion, tywydd teg.
7. Pan fo'r awyr yn ymddangos yn dywyll neu yn gymylog, ac yn clirio yn erbyn y gwynt, disgwyliwch am dywydd teg.
8. Pan fo yr enfys yn ymddangos ar ôl y glaw, ac yn lled goch.
9. Niwl yn disgyn oddiar y bryniau ac yn sefydlu yn y dyffrynoedd neu niwl y prynhawn, sydd yn arwydd o ddiwrnod gwresog drannoeth, niwl gwyn yn codi i fyny o'r dŵr yn y prynhawn – yr un peth.
10. Ystlumiaid yn hedfan yn gynharach nag arferol.
11. Chwilod duon yn hedfan, yn y prynhawn.
12. Llawer o glêr a gwybed yn chwarae y prynhawn yn yr haul.

### ARWYDDION O WYNT A THYMHESTL

1. Cymylau cochion yn y boreau sydd yn arwyddo gwynt mawr
2. Llawer o sêr yn saethu o un man i'r llall.
3. Yr enfys yn goch
4. Cylchoedd duon oddeutu'r haul a'r lleuad
5. Y sêr yn dywyll ac yn danllyd
6. Hydref teg wna aeaf gwyntog
7. Y cymylau yn cerdded yn fuan
8; Y tân yn llosgi yn dywyll, ac yn hisian
9. Y gigfran yn ehedfan yn uchel
10. Y gigfran yn curo ei hadenydd
11. Y moch yn rhochian a gwichian mwy nag arferol.


## MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


### ARWYDDION GLAW

1. Yr haul yn edrych yn goch-danllyd wrth godi
2. Yr haul yn edrych yn wan neu'n glafaidd wrth godi
3. Cymylau cochion a duon oddeutu'r haul wrth godi, ac yn ei guddio ymhen ychydig amser wedi hynny.
4. Ei lewyrch yn edrych yn las neu ddu
5. Cwmwl yn ymddangos, i ba un y bydd tarth yn dyrchafu
6. Y lleuad yn newid gerllaw i'r "Pleiades", neu y "twr sêr" sef Medi
7. Cylch neu rod oddeutu'r lleuad
8. Yr haul yn y dwyrain yn ymddangos yn fwy nag arferol
9. Cymylau duon yn y gorllewin pan fyddo yr haul yn machlud, sydd arwydd sicr o law y noswaith honno, neu drannoeth
10. Yr haul neu y lleuad yn edrych yn dywyll, glaw, yn glir, tywydd teg.
11. Sêr mawrion prin yn weledig
12. Yr enfys yn edrych yn wyrdd, glaw
13. Yr adar yn cadw ystŵr, ac yn ymolchi
14. Piod yn ysgrechian
15. Paenod a hwyaid yn cadw ystŵr parhaus
16. Y gwenoliaid yn ehedeg yn isel ac yn cyffwrdd â dŵr a'u hadenydd
17. Y ddylluan yn crio "si-wit" yn fynych
18. Y pryf copyn yn gweithio mwy nag arferol
19. Adar y dŵr yn ymgasglu ynghyd, ac yn ehedeg oddi wrth y môr, yn y gwrthwyneb, adar y tir yn ehedeg tua'r môr, neu i'r llynnoedd (megis brain, gwenoliaid a.y) ac yn cyffwrdd y dŵr â blaenau eu hadenydd, sydd yn arwyddo fod glaw yn agos
20. Llawer o bryfaid yn dyfod allan, ac yn ymddangos ar hyd y ddaear
21. Cŵn yn udo
22. Anifeiliaid yn pori yn newynllyd ac yn llyfu eu carnau
23. Clêr a gwybed yn flinedig
24. Huddugl yn cwympo o'r simneau
25. Muriau a pharwydydd yn chwysu
26. Hen ysigfa, a phoenau yn aelodau henoed, sydd yn arwydd o law neu rew. Arwydda poen yn y cyrn ar fysedd traed yr un peth
27. Pan na fydd dim gwlith y boreau na'r prynhawn
28. Clychau i'w clywed ymhellach nag arferol, sydd yn arwydd o law – medd yr hen bobl.

**ECO'R WYDDFA TRWY'R POST**
*Cysylltwch â*
**Selwyn Williams,**
*(Trefnydd Gwerthiant)*
**Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug.**
*Caernarfon 3577.*

# BRYN-REFAIL

**BUDDUGWYR Y GYMANFA** – Llongyferchir y canlynol o aelodau Ysgol Sul Brynrefail ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Llafar yng Ngymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Deiniolen a gynhaliwyd yn Eglwys Ysgoldy ar Fai 1af: **Dan 5 oed:** Rodney Roberts; **Dan 6:** Caron Haf Jones, Tudur Lloyd Roberts a Sally Ellis; **Dan 8:** Neil Roberts, Meinir Wyn Jones, Alwen Jane Jones a Richard Glyn Ellis. **Dan 10:** Llinos Lloyd Roberts a Christine Jones, **Dan 12:** Janet Jones. **Dan 16:** Mair Wyn Evans a Ruth Jones. **Dan 50:** Mrs. Lowri Prys Williams a Mrs. Shirley Roberts. **Dros 50:** Miss Annie May Williams a Mrs. Elizabeth Foulkes. Hefyd gwobrwywyd dau barti cydadrodd y naill dan 9 oed a'r llall dan 16 oed.

**CLWB YR HENOED** – Cafwyd cyfarfyddiad o'r clwb nos Fawrth, Mai 3ydd dan lywyddiaeth Mr. Griffith Pritchard, Glyn Afon. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Parti Cynfi o Ddeiniolen.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Iau Ebril 21ain, rhoddodd Mrs. Hannah J. Jones, un o aelodau'r gangen, hanes ei hymweliad a Seland Newydd, trwy gymorth ffilmiau a dynnodd yn ystod cyfnod o chwe mis yno tra'n aros gyda'i mab a'i deulu. Cyflwynodd liain bwrdd hefyd yn rhodd i'r Sefydliad. Mrs. Beti Owen a Mrs. Pat Jones oedd yn gofalu am luniaeth y noson.

**ANFON COFION** – Dymunwn y gorau i rai o drigolion y pentref sydd heb fod yn rhy dda eu hiechyd yn ystod y misoedd diwethaf: Mr. John Ellis, Penrallt, sydd wedi gwella'n bur dda erbyn hyn; Mrs. M. Hughes, Gorswen sy'n gwella'n raddol yng nghartref ei chwaer ym Mwcle; Mrs. N.F. Williams, Glanffrwd a Mrs. E. Hughes, Bronafon sy'n well 'rôl peth anhwylder. Mae Mrs. M. Roberts, Fferm Penllyn, yn bur ddi-hwyl hefyd a dymunwn adferiad iddi hithau ac ar yr un pryd lawenhau fod ei gor-wyr, Neil Roberts, 1 Minffordd wedi gwella ar ôl damwain dost yn yr ysgol yn ddiweddar. Bu Sally Ellis, Gweledfa, am gyfnod byr yn Ysbyty Dewi Sant a da yw deall ei bod yn gwella'n foddhaol.

**CLWB Y MAMAU** – Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Clwb nos Iau, Mai 12ed. Etholwyd swyddogion newydd ar gyfer y tymor nesaf. **Llywydd:** Mrs. Moira Ellis, Gweledfa; **Ysgrifennydd:** Mrs. Shirley Roberts, 1 Minffordd; **Trysorydd:** Mrs. Jean Jones Bryn Parc. Y gwestwragedd am y noson oedd Mrs. Euronwy Roberts a Mrs. Eirlys Williams. Cyflwynwyd y raffl gan Mrs. Carol Houston ac fe'i henillwyd gan Mrs. Rhian Jones. Trefnir trip dirgel i gloi gweithgareddau'r tymor presennol.

**NEWID ARDAL** – Yn ystod y mis, symudodd Mr. a Mrs. Malcolm Lewis a'u merch fach Clare, i fyw o Ael-y-Bryn. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon.

**CYFEISTEDDFOD Y CHWIORYDD** – Cyfarfu chwiorydd Dosbarth Deiniolen yng Nghapel MC Brynrefail, nos Fercher, Ebrill 27ain, pryd y gwahoddwyd y Parch John Owen, BA., BD., Llanberis i annerch ar "Apel Karjat 1977". Yr oedd y gwasanaeth dechreuol yng ngofal Mrs. Gwyneth Evans, Mrs. Shirley Roberts, Mrs. Lowri P. Williams a Miss A.M. Williams ynghyd a pharti o ieuenctid a phlant yr Eglwys: Medwen Jones, Marian Evans, Ruth Jones, Mair Evans, Llinos Roberts, Christine Jones, Kathy Williams ac Einir Evans. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs. K. Hughes, Cefnywaun. Trefnwyd lluniaeth ar derfyn y cyfarfod gan chwiorydd yr Eglwys.

# DEINIOLEN

**EGLWYS TABERNACL** – Yn y Gymanfa Ysgolion gynhaliwyd yn Horeb, Bangor enillodd Linda Roberts, 23 Hafod Olau trydydd bar y Ty Cenhadol; 'roedd eisoes wedi ennill medal. Thema'r Gymanfa oedd "Gwaith Ei Ddwylo", a chymerwyd rhan gan Malcolm a Karen Allen, Linda Roberts a Sandra Cyster.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Lun, Mai 2ail cyfarfu y Sefydliad dan lywyddiaeth Mrs. M.A. Thomas. Darllenwyd y llythyr misol a chydymdeimlad ag amryw o'r aelodau sydd yn wael. Yna croesawyd aelodau newydd, sef Mrs. Eileen Williams a Mrs. K. Wyn Jones, Tai Gweledfa ac hefyd Mrs. Daly o'r Iwerddon, oedd ar ymweliad. Gwraig wadd y mis oedd Mrs. Dilwyn Hughes, Porth Gogledd, ac yn hollol ddidrafferth a medrus, paratodd wledd o fwyd. Rhoddwyd yr oll ar raffl ac enillwyd gan Mrs. Smalley, Miss P. Roberts, Mrs. Price, Mrs. Maureen Evans, Mrs. M.A. Thomas, Mrs. Nancy Rowlands, Mrs. M. Thomas, Mrs. Eirian Jones, Mrs. Dilys Williams, Mrs. Sali Lewis, Mrs. Williams, Mrs. Marian Williams, Mrs. Nan Williams a Mrs. Betty Williams. Diolchwyd yn gynnes i Mrs. Hughes gan Mrs. E. Williams, Bwthyn a Miss Kathleen Jones, Crown am noson a gofir yn hir iawn. Ar Mehefin 2ail aiff ein hysgrifennydd, Mrs. Dilys Williams, 3 Victoria Terrace i gynrychioli Penisarwaun a Deiniolen i'r Cyfarfod Blynyddol yn yr Albert Hall, Llundain. Ar Mehefin 13eg estynnir croeso i aelodau Penisarwaun i ddod i Ysgol Gwaun Gynfi i glywed yr hanes a chael paned. Edrychir ymlaen am noson ddiddorol rhwng y ddwy gangen.

**DIOLCHIADAU** – Dymuna Mr. John Williams, 3 Tai Cynfi ddiolch yn garedig iawn am y cardiau a'r anrhegion dderbyniodd ac am garedigrwydd y teulu, cymdogion, meddygon a'r cyfeillion oll, tra yn aros yn Ysbyty Bryn Seiont, ac wedi ei ddychweliad gartref.

**CYFARCHION** – Mae amryw o'r pentrefwyr gatref ac oddi cartref dan anhwylder, ac anfonwn ein cyfarchion cynnes atynt a'n dymuniadau am adferiad buan iddynt oll. Un o'r rhai fu'n bur wael yn ystod y misoedd aeth heibio yw Mr. Richard Thomas Williams, 8 Ffordd Deiniol a bydd ei gyfeillion a'i gydnabod yn falch o wybod ei fod ar wella erbyn hyn.

**EGLWYS LLANDINORWIG** – Cynhelir yr Wyl Bregethu flynyddol – Penblwydd Eglwys Llandinorwig yn 120 ml. oed ddydd Sul Mehefin 19, pryd y cynhelir gwasanaethau arbennig am ddau y pnawn a chwech yr hwyr.

**LLONGYFARCHION** – Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i foneddiges hynaf y pentref; Mrs. Ann Owen, Tŷ Macpela, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 94 mlwydd oed ar Fai 17.

**PLAID CYMRU** – Pasiwyd ym mhwyllgor Plaid Cymru yn ddiweddar i gynnal Helfa Drysor ar nos Sadwrn Mehefin 11eg. Bwriedir cychwyn o Rhydfadog am 5.30 o'r gloch. Derbynnir enwau a thal o 25c y car, i Mr. Dafydd Wyn Williams, Mr. Gwyn Parry neu Mr. Ifan Bryn Roberts, erbyn dydd Sadwrn Mehefin 4ydd.

Dyddiad i'w gofio, Gorffennaf 16eg – Taith Ddirgel.

**"Y LEINAR"** – Un arall o fysiau'r diweddar J.W. Hughes a'i Feibion, Rhiwen. Arferai'r "Leinar" redeg rhwng Llanberis, Cwm-y-glo, Llanrug, Bethel, Capel Seion a Bangor – y gwasanaeth uniongyrchol cyntaf rhwng Llanberis a Bangor.


I'w gweld yn y llun mae Mr. Robert Jones, Tŷ Caxton, "conductor" a Mr. Elwyn Griffith, gynt o Cae Tai, gyrrwr.

**MERCHED Y WAWR** – Cynrychiolwyd y Gangen gan Mrs. Mair Morris a Miss N. Owen yn y Cyngor Cenedlaethol gynhaliwyd yn Aberystwyth Mai 7ed, a cheir eu hadroddiad yng nghyfarfod Mehefin.

Dydd Sadwrn, Mai 14eg aeth nifer dda o'r aelodau i'r Ŵyl Wanwyn gynhaliwyd yng Ngholeg y Normal, Bangor a mwynhau areithiau gan Mrs. E. Closs Stephens ar y testun 'Pwy a ladd y Milwr Plwm?' a'r Dr. Tom Parry ar Gwyneth Vaughan a fu'n byw rai blynyddoedd yn ôl yn Tŷ Mawr, Clwt-y-bont. Cafwyd adloniant wedi'r te. Byddai'r Dr. Tom Parry yn falch am hanes Gwyneth Vaughan gan unrhyw rai o'r ardal sy'n cofio'r wraig ddawnus hon yn byw yma. Y mae cyfeiriadau at leoedd fel Hafod Olau a'r Foty yn ei llyfrau ac yn naturiol 'roedd ei hanes o ddiddordeb arbennig i ni oedd o Ddeiniolen.

Cafwyd noson o ddifyrrwch yng nghwmni aelodau Merched y Wawr Penrhosgarnedd ar nos Lun, Mai 16eg, pryd y cyflwynwyd ganddynt gomedi o waith Rhiannon Parry, Llansannan. Diolchwyd iddynt gan Mrs. H. Sutherland yr is-lywydd. Gwesteion am y tro oedd Mrs. Mair Morris, Mrs. B. May Williams a Miss Nansi Owen, Rhydfadog, gyda Mrs. Menna Wyn Jones, Llanrug, hwy hefyd ofalodd am y lluniaeth ddeniadol i'r ymwelwyr ac am y raffl a enillwyd gan Mrs. Eirlys Williams.. Gwnaed elw sylweddol iawn gyda'r Stondin Gwerthu, a diolchir yn gynnes iawn i bawb am eu haelioni gyda'r rhoddion a'r prynu. Rhoddwyd croeso gan y Llywydd (Miss P. Roberts i Mrs. Rees Owen a Mrs. Margaret Cynfi Griffiths ar ôl eu gwaeledd. Cadarnhawyd y newid yn nyddiad y Cyfarfod Blynyddol o'r nos Lun Mehefin yr 20 i nos FAWRTH, Mehefin 14. Ymwelodd nifer o'r aelodau a Theatr Gwynedd ar nos Iau, Mai 26ain, a bydd amryw yn mynd i'r Ŵyl Werin yn Neuadd Seilo nos Wener Mehefin 17eg.

Nos Wener, Gorffenaf 1af, bydd gwibdaith i Canolfan Crefftau Bodeilio, Talwrn, Sir Fôn, a swper wedyn mewn gwesty cyfagos. Enwau i'r wibdaith i'w rhoi i Mrs. Valmai Williams neu Mrs. Margaret Roberts y trefnwyr tripiau.




*Uchod: 'Y Leinar'.*

## TRIP CLWB ERYRI

**Bydd y trip blynyddol ddydd Sadwrn Mehefin 18 yn cychwyn o Lanberis am un o'r gloch. Bwriedir ymweld â Dyffryn Conwy, gan gynnwys orig neu ddwy yng ngerddi Bodnant. Trefnir cinio mewn gwesty ar y ffordd gartref, a dylai'r aelodau roi gwybodaeth o'u bwriad i ddod i'r ysgrifennydd Rol Williams, Bod Gwilym, Waunfawr mor fuan ag sydd modd.**

# Gwyn y Gwêl

**Mis Mawrth eleni ganwyd efeilliaid o un o'r defaid yma. Un gwyn a'r llall yn ddu fel y frân; erbyn hyn mae wedi tyfu yn gwbyn go lew a phan y mae'n prancio hyd y cae dychryn mae y defaid eraill gan feddwl mai ci ydi o, ac os yr eith i mewn i'r gorlan yn gyntaf 'does bosib cael dim un ddafad arall i mewn i'r gorlan, ond ei fam ac felly ar y cae, pob dafad yn dychryn ond y hi, tybed am mai 'gwyn y gwêl y ddafad ei hoen'?**

EMW
Llwyncoed.


10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

**E. WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

*Ffôn: Llanberis 491*

**MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD**

# SIBRYDION o'r YSGOLION



## YSGOL BRYNREFAIL

Cafodd Mr. Victor Neep, artist lleol, grant gan Gyngor y Celfyddydau i wneud cerflun i'w roi o flaen yr ysgol.

Cynorthwywyd Mr. Neep gan rai o ddisgyblion y chweched dosbarth. Tynnwyd amryw gynlluniau a phenderfynwyd ar yr un oedd yn cynnwys agweddau ar fywyd y chwarel. Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r moldiau yn yr ysgol, gyda'r disgyblion yn cynorthwyo. Yna bwriwyd y cerflun yng ngweithdy Victor Neep yn Rhosgadfan, a bu rhai o'r disgyblion yno yn gweld y gwaith. Mae'r cerflun yn cynnwys ebill a chyllell hollti ac addurnwyd ef â llech. Ysgrifenwyd llinellau o "Gerdd Yr Hen Chwarelwr" ar y cerflun:

"Cryf oedd calon hen y glas glogwyni
Cryfach oedd ei ebill ef a'i ddur".

Dadorchuddiwyd y cerflun gan Syr Ben Bowen Thomas, cadeirydd Cyngor y Celfyddydau ddydd Gwener yr ugeinfed o Fai. Mae'r ceflun i'w weld ar wal yr ysgol.

### YMWELIADAU

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn ymweld â Theatr Clwyd, lle cawsant berfformiad gwych o "As You Like It", gan Shakespeare. Bu rhai ohonynt hefyd yn ymweld â Theatr Gwynedd i wylio drama arall gan Shakespeare, sef Julius Caesar.

Bu grŵp dawnsio creadigol yr ysgol a grŵp gymnasteg y genethod yn y Theatr yn Harlech ar Ebrill 27ain. Yr oeddynt yn cymryd rhan mewn cyflwyniad o waith symyd creadigol, a drefnwyd gan nifer o ysgolion Gwynedd, yn y Theatr. Yr oedd yn noson lwyddiannus dros ben a chafodd y grŵp dawns greadigol glod uchel am eu dawns, a sefydlwyd ar hanes Chwedl Branwen.

Aeth disgyblion y 6ed dosbarth sy'n astudio Cymraeg i ysgol undydd ym Mhrifysgol Bangor ar y 6ed o Fai. Mwynhawyd y darlithoedd yn fawr iawn.

Croesawyd Dafydd Glyn o Benygroes hefyd i'r ysgol i ddarlithio i'r disgyblion Cymraeg ar Oidipos Frenin, sydd yn rhan o'u Cwrs Lefel A.


*

**J.Rheon Pritchard**

14, GLANRAFON
BONTNEWYDD
Ffôn: Caernarfon 3507

**CARPEDI**

PRISIAU RHESYMOL

GOSOD AM DDIM

*



cymrodyr hiraethog

YN EISIAU
**BRICWYR**
AR IS-GONTRACT
I'N SAFLE YN
BRYN MOELYN
LLANRUG

Ymofynner ar y safle
neu ffoniwch C'fon 3157


# LLWYDDIANT CLWB IEUENCTID LLANBERIS



*Mr. John Lloyd Williams, Swyddog Rhanbarthol Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymreig yn cyflwyno tarian a thystysgrifau i Kevin Owen a Karen Jones, enillwyr cystadleuaeth Badminton 'Junior Trophy'. Arweinydd y Clwb yw Mr. G. Williams.*



*Tîm Pêl-rwyd Clwb Ieuenctid Llanberis: Karen Jones, Menai Jones, Gillian Williams, Anwen Owen, Glenda Williams, Wendy Evans, Shirley Owen.*

## BATHODYNNAU NOFIO





*Karen a Cheryl Williams, Llanberis.*



*Garry Wakeham, Llanberis.*



*Timothy Lloyd, Pen-y-Pass.*

# LLANBERIS

**CYDNABOD** – Dymuna William Williams, Llys Eidda ddiolch i berthnasau a chyfeillion am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd iddo yn ystod ei waeledd. Hefyd i'r meddygon a'r nyrsus lleol, ynghyd â meddygon a staff Ysbyty Eryri, Caernarfon.

**Y GANOLFAN IEUENCTID** – Bu Sharon Ellis, 7 Rhos Efrog, yng nghanolfan ieuenctid yr ifainc ar gyfeillgarwch , caru a phriodi.

**CYFARFOD DOSBARTH LLANBERIS (MC)** – Cynhaliwyd cyfarfod arbennig nos Fercher, 11 Mai ym Mhontrhythallt. Agorwyd y mater "Gwaith yr Ysbryd Glân" gan Mrs. Dilys Baylis, Gorffwysfa, Llanberis. 'Roedd y Gwasanaeth Dechreuol a'r cyfarfod yng ngofal y llywydd. Lediwyd emyn i derfynu gan Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel, Capel Mawr, Llanrug, a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs. Whiteside Thomas.

**SEIAT UNDEBOL** – Cynhaliwyd y seiat yn Nant Padarn, nos Fawrth, 17 Mai gyda'r Parch. H.J. Hughes yn agor y mater "Duw'r Tad" yn seiliedig ar bennod o lyfr y Parch. Elfed ap Nefydd Roberts, "Pwy yw Duw?"

**COLLED** – Yn Ysbyty Môn ac Arfon, fore Sul, bu farw Thomas H. Williams, Creigle, wedi gwaeledd hir. Claddwyd ef ym mynwent Llanrug, Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**SGWRS CARDI** – Dyna a gafwyd nos Iau, 12 Mai, yn y Ganolfan mewn cyfarfod a drefnwyd gan Blaid Cymru. Y sgwrsiwr oedd y cynhyrchydd ffilmiau a'r teithiwr, Wil Aaron. Cafwyd noson hynod o ddifyr.

**PWYLLGOR BUGEILIOL** – Codwyd pwyllgor bugeiliol eglwysi Capel Coch, Gorffwysfa, Preswylfa, Llanberis a Rehoboth, Nant Peris, nos Sul diwethaf ar gyfer galw gweinidog i'w bugeilio.

**CREOSO'N ÔL O'R YSBYTY** – i'r Mri. William Williams, Llys Eidda, Evan Wilson Hughes, Tŷ Eryri, a Mrs. Carys Hughes, Stryd Ianci.

**Y GYMANFA** – Cafwyd Cymanfa lwyddiannus eto eleni o dan arweiniad Mr. Idwal Roberts, er fod y nifer yn mynd yn llai bob blwyddyn. Rhoed sylw teilwng i Ieuan Gwyllt yn y ddau gyfarfod. Caed arddangosfa fechan yn y cyntedd, ei lun a pheth ffrwyth o'i lafur mawr i hyrwyddo cerddoriaeth a llenyddiaeth Cymru. Mewn pwyllgor yn ddiweddar, penderfynwyd i gynnal Cymanfa eto y flwyddyn nesaf ar y Sul cyntaf o Fai yng Nghapel Coch gyda Mr. T.J. Roberts, Rehoboth yn arweinydd.

**CROESO O'R YSBYTY** – Mrs. Mary W. Thomas, 15 Ffordd Tŷ Du a Mrs. Betty Graham, Dôl Elidir.

**COLLED** – Yn ysbyty Eryri bu farw Mr. Emyr Thomas, 8 Maes Padarn ar ôl gwaeledd hir. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**CYMORTH** – Bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn y Ganolfan Iechyd (Clinic) bob dydd Mercher o 9.30 yn y bore hyd 12.30. Os am fwy o fanylion ffoniwch Mr. Ted Thomas Padarn 324.

**EGLWYS ST. PADARN** – Mehefin 8. 7 p.m. (Nos Fercher) Cwmni Drama: Indiana Central University yn perfformio "Heavens Above". – ymdrech i gyflwyno'r Efengyl mewn termau cyfoes. Cyfarwyddwr: Dr. Richard Williams, sydd a pherthnasau yn yr ardal.

**YSGOL DOLBADARN** – Archebwyd 678 o lyfrau yn yr Ymgyrch Lyfrau Cymraeg. Diolch am eich cefnogaeth eleni eto.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Iau, Ebrill 28ain dathlodd Sefydliad y Merched hanner can mlwyddiant sefydlu'r gangen yn Llanberis. Daeth dros saithdeg o aelodau i wledd arbennig a ddarparwyd ar eu cyfer ym Mhlas Tandinas i ddathlu'r amgylchiad.

Y gwahoddedigion oedd Mrs. V. Treen, Cadeirydd y Sir a Miss Ellen Owen, Ysgrifenyddes y Sir. Darparwyd teisen hardd iawn gan ddwy o'r aelodau, a thorrwyd hi gan y llywyddes Mrs. Hannah Jones.

Cynigwyd llwnc-destun i ddyfodol y Sefydliad gan Mrs. Treen ac eiliwyd hi gan Miss Ellen Owen.

Siaradwyd gan Miss Morfudd Evans a Mrs. Robert Morris, y ddwy yn aelodau ymhlith y rhai cyntaf pan sefydlwyd y gangen, ac amryw o aelodau eraill yn dwyn atgofion a hanes blynyddoedd cynnar y gangen. Yn bresennol oedd Miss Morfudd Williams o Hen Golwyn, hithau yn aelod yn y blynyddoedd cynnar. Treiliwyd noson ddifyr a chofiadwy dros ben.

**LLONGYFARCHIADAU** – Enillodd Mrs. M.E. Jones, 10 Victoria Terrace wobr arbennig iawn mewn gwaith llaw yn gysylltiedig â'r Mudiad Methiedig. Bu yn Llundain i gael ei gwobrwyo gan y Dywysoges Anne.



*Mrs. K. Williams, yn cyflwyno cloc i'r Parchedig John Owen ar ran Cwmni Drama Llanberis. Mr. Owen oedd sefydlydd y cwmni presennol a Mrs. Williams yw'r Llywydd Anrhydeddus. Mae Mr. Owen a'r teulu ar fin symud i Rhuthun.*


# Cystadleuaeth Bysgota

**Mae'n rhaid canu clodydd Trefnyddion Carnifal Llanberis. Dyma nhw eto yn gwneud defnydd i'r eithaf o'u hamgylchfyd.**

Ar ôl defnyddio'r Wyddfa gyda'r ras fawr – dyma nhw yn defnyddio Llyn Padarn i gynnal Cystadleuaeth i Bysgotwyr!

Cynhelir y gystadleuaeth ddydd Sadwrn, Gorffennaf 9ed o 10 o'r gloch tan 2 ac o 2.30 tan 6 gyda'r nos.

Y brif gystadleuaeth fydd y Gystadleuaeth "Pysgota gyda Phluen". Cystadleuaeth agored fydd hon am Gwpan Pysgota Padarn. Cyflwynwyd y gwpan yma am bysgota ar Lyn Padarn yn 1937 gan y Dr. R.R. Armsden, meddyg o Lanberis. Mae Dr. Armsden yn byw yng Ngaernarfon ar hyn o bryd a disgwylir ef yno i'w chyflwyno. Mr. D.J. Roberts, Llanberis oedd yr olaf i'w hennill yn 1938.



Yn yr ail ddosbarth gellir defnyddio unrhyw ffurf arall o bysgota a fydd yn dderbyniol dan reolau W.N.W.D.A. (Welsh National Water Development Association).

Mae dau ddosbarth i blant. Yn y trydydd dosbarth bydd plant dan 16 oed a thros 12 oed yn cystadlu mewn unrhyw ffurf sy'n dderbyniol dan reolau'r WNWDA ac mae'r un rheolau i'r pedwerydd dosbarth sef cystadleuaeth i blant dan 12 oed.

Cyflwynir cwpan arbennig iawn i'r cystadleuwr lleol gyda'r ddalfa orau yn y ddau ddosbarth olaf. Bydd yr enillwr yn derbyn cwpan Brymer sydd yn cael ei chynnig gan Mrs. M.B. Hughes, Llanberis i goffáu am un o'r pysgotwyr mwyaf a welodd yr ardal, sef y diweddar Brymer Roberts.




Bydd gwobr arbennig am y pysgodyn trymaf yn y pedwar dosbarth ac hefyd i'r tîm gyda'r ddalfa orau. Bydd gwobr i'r cyntaf, ail a thrydydd ymhob dosbarth.

Chwi bysgotwyr – beth amdani? Y pris am gystadlu fydd 50c i oedolion a 25 c i blant a £1 i'r timau.

Os ydych am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r rheolau ac ati gofynnwch yn y siopau pysgota neu aelodau o Bwyllgor y Carnifal neu ffonio Mrs. Siân Thomas, Llanberis.

**YSGWN I FYDD YNA UN ARALL O'R RHAIN YN Y FASGIAD?**



*Kieron Huws gyda physgodyn pen-ci – (dog fish), a ddaliodd yn afon Hwch. Pwy sy'n cario pethau fel hyn o'r môr i'r afonydd?*


CWESTIWN
Be' di'r ffordd hawsa' o symud llwyth o Lanberi i Landudno, o Deiniolen i Dundee ac o Fethel i Fanceinion?
ATEB
H.F. OWEN
YMGYMERWR CLUDIANT – HAULAGE CONTRACTOR
BRON MEILLION
Bethel
Ffôn : Port Dinorwig 487
Fe gariwn rywbeth i rywle (bron!)

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



**Mae'n flwyddyn y Jiwbili medda nhw. Brenhines wedi ei choroni tua Llundain 'na chwarter canrif yn ôl.**

Yn 1953 fe welodd Cymru goroni brenhines am y tro cynta' 'rioed hefyd. Prynhawn dydd Mawrth, wythnos Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl, ac ar alwad y cyrn gwlad fe gododd merch ar ei thraed, a dyna foment hanesyddol yn hanes ein prifwyl. Y ferch gynta' 'rioed i wisgo Coron yr Eisteddfod Genedlaethol. Do, fe gafodd Cymru hefyd ei brenhines am un prynhawn y flwyddyn honno pan wisgodd Dilys Cadwaladr Goron Prifwyl Y Rhyl.

Ffaith diddorol arall yw, petai'r goron wedi ei dyfarnu i'r ail orau, yr un un fyddai yn ei gwisgo, oherwydd 'roedd Dilys Cadwaladr wedi anfon dwy bryddest i'r gystadleuaeth, a hi oedd y cyntaf a'r ail gan y beirniad.

Mae gan y Prifardd Dilys Cadwaladr gysylltiadau agos ag ardal Cwm-y-glo a Brynrefail wrth gwrs, ac mae'r dystysgrif a gafodd gyda'r Goron ym Mhrifwyl Y Rhyl i'w gweld yn Festri Capel Brynrefail!

Yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala 1967 fe goronwyd brenhines arall ar brynhawn Mawrth, sef Eluned Phillips, a diddorol yw sylwi iddi hithau wneud yr union gamp â brenhines Y Rhyl – sef dod yn gyntaf ac yn ail yng nghystadleuaeth y goron.

Ys gwn i pwy fydd y ferch gynta' i ennill cadair ein prifwyl? Mae 'na un neu ddwy wedi eistedd ar ei breichiau eisoes. Beth amdani ferched ym mlwyddyn y Jiwbili? Mi fyddai'r dynion yn barod iawn i floeddio 'heddwch' reit siŵr.

Gan i mi ddechrau clodfori merched, fe arhoswn ni yn eu cwmni nhw am y tro.

Dyma barodi o waith Mrs. K. Lloyd Hughes, Dinorwig. Parodi ar gerdd enwog Crwys i 'Felin Trefin'. Fydd parodi byth yn llwyddiannus onibai ein bod yn gyfarwydd â'r gwreiddiol. Diolch i chi am droi i mewn Mrs. Hughes – mae'r chwarel yn priodi'n hyfryd â melin Crwys.

**CHWAREL DINORWIG**

**Parodi ar 'Melin Trefin'**

**Nid yw'r chwarel heddiw'n gweithio**
**Yn Ninorwig ar y bryn.**
**Troes y llechen olaf allan**
**O'r hen waliau llychlyd gwyn**
**Ac mae'r caban gwael diaddurn**
**Gyda'i ddarnau tegins tlawd**
**Bellach fel y bedd o dawel**
**Neb yn adrodd dim o'u ffawd.**

**Rhed y rwbel i lawr y Ponciau**
**Gyda godre'r 'Lidir Fach**
**Ond ddaw neb i dorri'r llechen**
**Nac i wneud y 'Duchess Bach".**
**Lle doi cannoedd i lafurio**
**Mewn trowsusau melfared**
**Ni cheir mwy ond ponciau distaw**
**Tawel yw pob twll a sled.**

**Ceiliog mawr sy'n gwylio'r fangre**
**Yn y curlaw mawr a'r gwynt**
**Ac ni chlywir clec y glocsen,**
**Atsain o'r blynyddoedd gynt**
**Ni ddaw undyn yno'i falu**
**Dim ond teithiwr ar ei dro**
**Ac mae cyfrinachau filoedd**
**Yn y creigiau'n dynn dan glo.**

**K. Lloyd Hughes.**

Caiff Dilys Baylis o Lanberis y gair ola am y tro. Diolch i chwithau am droi i mewn i'r Llannerch, hefo hanes y ci – 'rwy'n siŵr y bydd y plant yn mwynhau hwn.

**MOT**

**'Roedd ganddo fedal am ei weddf**
**Yn tincian dros y lle**
**A'i enw arni yno'n ddel –**
**"Mot Jones o Felindre"**

**I ben yr Wyddfa cerddodd hwn**
**Rhyw ddydd, ar ben ei hun**
**Ond ar y trên y daeth i lawr**
**Yn hapus fel hen ddyn!**

**Fe gerddodd hwn i'r ysgol bach**
**Bob bore gyda'r plant**
**A chyda sŵn y gloch am naw**
**Dôi adre'n ôl fel sant.**

**Fe nofiodd hwn yn nŵr y Llyn**
**Fe 'molchodd yn y nant,**
**Bu'n hela efo cŵn y fro –**
**Pysgota efo'r plant.**

**Ond wedi diwrnod prysur iawn**
**Dôi adre'n ôl yn flin**
**Â golwg smala arno'n wir**
**Pan neidiai ar fy nglin.**

**Pam cadw ci at lygod bach,**
**Neu warchod yn y tŷ,**
**A hwnnw byth ar gael yn wir**
**Waeth i mi heb 'run ci!**

**Ond, Mot yw Mot, a dyna fo,**
**Mae'n chwarae trics â mi –**
**Mae o a fi yn ffrindia mawr,**
**Un call yw Mot, ci ni!**

**Dilys Baylis.**

Dyna'r merched wedi cael hawlfraint y "Llannerch" am y tro. Cofiwch fod croeso cynnes i feibion a merched, a phlant wrth gwrs, yma bob amser. Pob llwyddiant i blant y fro sy'n mynd i 'Steddfod yr Urdd yn y Barri. Efallai y gwna rhai ohonoch 'sgwennu i mewn i ddweud tipyn o'r hanes wrthym. Anfonwch air i

Crud-yr-Awen, Bethel.
Hwyl fawr,
Selwyn.


E&
E.M.GREEN

SIOP GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*


# Cadw Gwenyn

gan

ISLWYN WILLIAMS,
Godre'r Coed, Brynrefail.

## TRIGOLION Y CWCH
(Parhad)

### Y GWEITHWYR

**Dyma'r enw a roddir ar y gwenyn amherffaith a hwy yw'r mwyafrif sydd i'w cael yn y cwch gwenyn. Priodol iawn yw yr enw yma arnynt oherwydd eu bod yng ngwir ystyr y gair yn weithwyr – yn weithwyr caled iawn. Pe byddai holl boblogaeth Prydain Fawr yn cymryd esiampl oddi wrth y 'gweithwyr' hyn, ni fyddai sôn am na streic nac ymryson diwydiannol yn ein gwlad.**

Mae'r gweithwyr yn llai o gorffolaeth na'r frenhines (y fenyw berffaith), ac mae llawer i ran o'u cyrff wedi datblygu'n addas er eu galluogi i gario allan eu gwahanol ddyletswyddau yn effeithiol. Mae gallu'r gweithwyr yn rhyfeddol iawn ar lawer ystyr; i nodi un ffaith yn unig: pe rhoddid siwgwr corsen iddynt, gallent ei gyfnewid yn fêl pur.

Gellir rhannu oes y gweithwyr yn dair rhan:

**(i) cyfnod y gweinyddu.**

Pan fo'r gweithwyr wedi eu geni maent yn dechrau arni i weinyddu ar y cynrhon eraill sydd yn dechrau datblygu. Oherwydd pan maent yn ifanc, h.y. o un i ddeng niwrnod oed, mae yna chwarennau arbennig yn eu pen sy'n bwrw allan sudd maethlon i borthi'r cynrhon. Wedi cyfnod o ddeng niwrnod fe sych y chwarennau hyn i fyny. Mae pob un cynrhonyn yn y cwch yn cael ei ymweld tua 1,300 o weithiau y dydd gan y gwenyn sy'n gweinyddu.

**(ii) y cyfnod teuluaidd.**

Dyma'r rhan pan fo'r gweithwyr o ddeg i ugain niwrnod oed. Yr amser yma, maent yn brysur yn paratoi mêl o'r neithdar mae'r gwenyn eraill yn ei gario i mewn. Byddant yn ei gymryd drosodd ganddynt ac yn ei storio yn y crwybrau. Mae'r neithdar pan roddir roddir ef yn y crwybr yn ddyfriog iawn a gwaith y gwenyn teuluol yw ei daenu allan yn y celloedd. Ac yna wrth ysgwyd eu hadenydd i greu awel sych, gallant leihau y dŵr a gynhwysir yn y neithdar o 75 i 18 y cant dros nos. Yn ystod y cyfnod yma hefyd, mae'r gwenyn ifanc yn hedfan am y tro cyntaf, a byddant am beth amser yn hedfan wrth ymyl drws y cwch fel y gallent ddysgu ar gof leoliad y cwch. Pan fyddant yn ugain niwrnod oed, rhoddir y gwaith iddynt o warchod y fynedfa fel na all unrhyw wenyn dieithr fynd i mewn.

**(iii) cyfnod y casglu.**

Pan fydd y gwenyn ifanc tua thair wythnos oed, mae'r amser wedi dod iddynt hwythau fel y rhai hŷn i fynd allan i'r maes i gasglu. Ânt allan i gasglu pedwar deunydd: neithdar, yr hyn a wneir yn fêl; paill, sy'n ffurfio protein a braster sydd yn rhan o ymborth y gwenyn; dŵr, oherwydd mae'n rhaid i wenyn yfed fel bob

**Gan fod y tymor pêl-droed wedi dirwyn i**
**gêm. Mae gan y golygydd nifer helaeth o lu**
**cyfle i'w cynnwys yn y rhifynnau nesaf. Byd**

# ARWY



Tîm Llanberis 1934–35. Enillwyr
Pencampwyr y Gynghrair. Dyna i
chwaraewyr oedd:
**Yn sefyll o'r chwith i'r dde:** *Wil Griffiths*
*Wynne; William Williams (Penny); John Gly*
**Yn eistedd:** *Dafydd (Jane Ann); D.J. Ro*
*Roberts (Bangor).*
**Yn eistedd ar y llawr:** *E.H. Williams (Ianto);*
**Aelodau'r pwyllgor yn sefyll o'r chwith i'r d**
*(Robes); John Roberts (Jack Parc) (Ca*
*Wil Roberts (Tai Christmas); Tom Jones (E*
*Roberts. (Y llun trwy garedigrwydd Mr. E.H*

# ARWYI



Tîm Pêl-droed dan 15 oed Llanberi
fydd y llun yma yn ymddangos yn yr E

rhoddir lle ar y dudalen ganol y mis hwn i'r
timau pêl-droed yn ei feddiant. Efallai y daw
yn amyneddgar!

# DDOE



ban Penrhyn, Alves a'r Junior. Hefyd
dîm. Dyma'r 'Darans' gwreiddiol. Y

*rn Road); Gwilym Jones (Y Cigydd); Willy*
*s.*
*(Dafydd Taff); Dafydd (Annie Dora); Arthur*

*Bach.*
*John Williams; Robin Angel; Dan Roberts*
*dd); George Hughes; Ceris Emlyn Thomas,*
*nne); Ritchie Roberts (Ysgrifennydd); Johnny*
*ams, 1 Edward St., Caernarfon.)*

# YFORY



'u rheolwr, Mr. T.J. Roberts. Ysgwn i
hen 50 mlynedd!

creadur arall; a propolis, sydd fel glud i gau tyllau bychain yn y cwch. Yn ogystal â chario i mewn, mae yna waith hefyd i gario allan o'r cwch. Golyga hyn fod y gwenyn yn glanhau'r cwch a chario allan bob budreddi gan fod y gwenyn yn greadur eithriadol o lan.

Mae oes y gwenyn yn dibynnu ar y maint o hedfan a wna. Felly, ynghanol tymor yr haf pan maent allan o fore hyd nos nid yw eu hoes ond tua phump i chwech wythnos. Gan hynny, gwelir fod poblogaeth y cwch yn newid yn wastadol fel na all y gwenyn ddod i adnabod y gwenynwyr o ddifrif.

**i barhau**

# APÊL KARJAT 1977

**Rai blynyddoedd yn ôl addawodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru wneud ymdrech arbennig bob tair blynedd i wynebu newyn byd mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol. Dair blynedd yn ôl gosododd yr enwad iddo'i hun y darged o £50,000 a chasglwyd dros £82 mil i sefydlu cynllun iechyd ym Mangladesh. Eleni mabwysiadwyd Karjat, ardal anghenus ar gyfandir India.**

Y ddinas agosaf at yr ardal hon yw Poona. Yn yr ardal mae degau o bentrefi bach ac y mae'r boblogaeth yn 60 mil.

Bu'r ardal hon yn y newyddion yn nechrau'r saith degau oherwydd iddi ddioddef blynyddoedd o sychder enbydus. Angen pennaf yr ardal yw dŵr ac y mae angen cloddio ffynnon ar gyfer pob pentref a sefydlu cynllun i ddyfrhau tir sur a diffrwyth er ei droi yn dir amaethyddol cynhyrchiol. Canlyniad hyn fydd creu diwydiannau addas mewn ardal lle nad oes diwydiant o unrhyw fath i roi bywoliaeth sefydlog a boddhaol i'r boblogaeth. Mae'r tai yn wael ac nid oes gan y trigolion adnoddau i'w gwella a'u trwsio. Hefyd mae afiechyd yn broblem arswydus oherwydd yr amgylchiadau. Yng Nghymru rhyw un baban (0–4 oed) o 5 mil sy'n marw, ond yn y rhan hon o'r byd bydd 565 o blant (0 – 4) oed o bob 5 mil yn colli'r dydd. Mae yna angen yn yr ardal hon, mae'r bobl eu hunain yn awyddus i gael cymorth oherwydd fod cymorth tebyg wedi llwyddo mewn ardal gyfagos. Mae'r bobl eu hunain yn barod i dorchi llewys er hyrwyddo'r gwaith.

Wrth ymateb i'r apêl hon byddys yn helpu'r ardal hon i'w helpu ei hun er concro'r anhawsterau dybryd sydd yno. Bydd pob ceiniog a gesglir yn mynd at y cynllun hwn. Bydd gan bob eglwys leol ei threfniant ei hun ynglyn a chodi'r arian. Bydd costau'r apêl yn cael eu cyfarfod yn rhannol gan Gymorth Gristnogol a'r Enwad.

**Ein cyd-Gristnogion** yn yr ardal hon fydd yn gweinyddu'r cynllun ac yn arolygu'r gwariant. Gall un person helpu un person anghenus. Gall un teulu helpu un teulu newynog. Gall un eglwys leol helpu pentref bychan sy'n ymladd am ei einioes. Gall Eglwys Bresbyteraidd Cymru godi ardal gyfan ar ei thraed.

**£50, mil** yw'r targed eto eleni. Cofiwn am yr hen air o China, "Daliwch bysgodyn ac fe gadwch ddyn yn fyw am ddiwrnod. Dysgwch iddo bysgota ac fe'i cadwch yn fyw am oes." Ac am eiriau'r Iesu: "Yn gymaint ag i **chwi** ei wneud i **un** o'r lleiaf o'r rhain, **FY MRODYR**, i **MI** y gwnaethoch."

# Diwedd Saga'r Torgoch

gan David J. Roberts, Llanberis

**Am Dorgoch Llyn Peris, bach iawn yw'r rhai ym mhen isaf y llyn, rhyw saith modfedd fyddai'r mwyaf o faint. Fe'u daliem ar gyfer Tycastell. Bûm droeon yn eu pysgota yn y pen uchaf ar gyfer Offis Gocyn (gynt). 'Roedd y torgoch yn fwy o faint yn y pen uchaf, rhyw wyth modfedd.**

Mae torgoch Llyn Peris yn claddu ym mis Tachwedd a Rhagfyr, rhai o'r teneu Cwm Eilir a teneu pen uchaf i'r llyn, a rhai yn mynd i fyny'r afon, heibio i chwarel Gallt y Llan nes dod i Bwll y Fro Mawr ar ôl pasio'r chwarel. Ni wyddwn hyn nes ar ôl y Rhyfel, yn 1947. 'Roeddwn i a 'mhardnar yn gweithio yn Chwarel Gallt y Llan i Mr. Tyldesley o Landudno.

'Doedd ond dau ohonom yno ar y pryd. Rhyw awr ginio yn nechrau Rhagfyr, diwrnod braf ond oer, dyma bernderfynu mynd ar hyd yr afon am dro, rhag ofn fod eog ar led ymyl yn gofyn am ei ddal!

Mynd â chroglath oedd gennym yn y caban at achlysur fel hyn, efo ni, cerdded i lawr at y bont, a dod i fyny'r afon yn ara' bach. Gwaelod yr afon yn glir fel grisial, gweld pob carreg a gweld yn glir o dan y torlenni.

Nid oedd yr un gynffon i'w gweld nes dod at bwll Pen Bont, ar gwr y chwarel, 'roedd rhyw hanner dwsin o frithyll bach rhyw bump i chwe modfedd o faint, yn chwarae yn nyfnder y pwll. Dal i fynd i fyny, — dim i'w weld.

Try'r afon i'r chwith, ac yna mewn llai na chanllath fe dry i'r dde, a chyda mae wedi troi i'r dde y mae pwll mawr hir a theneu eang iddo. Mae canol y pwll yn ddwfn, rhyw ddeg neu ddeuddeg troedfedd o ddyfnder dŵr, fel dysgl fawr, ei waelod o ruan a cherrig golau. Pan yn edrych i'r pwll sydd ar y tro cyntaf, dyma ddigwydd edrych i fyny i gyfeiriad y pwll mawr, a gweld cynffon eog allan o'r dŵr ar y teneu. Dyna wyro i lawr i'r brwyn, yna ymlusgo trwy'r brwyn i gyfeiriad y pwll, nes 'roeddym mewn rhyw ddwy droedfedd i ymyl y dorlan, edrych trwy'r brwyn, gweld yr eog, rhyw ddeunaw pwys, â'i gefn allan o'r dŵr yn siglo yn araf o ochr i ochr, ac er ein mawr syndod, gweld fod y teneu wedi ei orchuddio â physgod, nid yn drifflith drafflith, ond yn rhesi dwbl, trwynau y rheng ôl mewn rhyw fodfedd neu ddwy i gynffonau y rheng flaen. Yna, rhyw chwe modfedd o'u blaenau dwy reng gyffelyb, ac felly dros wyneb yr holl deneu. Bob un pysgodyn bron yr un faint, rhyw wyth modfedd da o hyd. Yr oedd y pwll mor llonydd a chlir nes 'roedd lliwiau'r pysgod i'w gweld yn glir, y rhai agosaf atom lai na llathen i ffwrdd.

Gwelsom ar unwaith mai torgoch oeddynt. Beth i'w wneud rwan? 'Roedd yr eog yn dal i siglo o ochr i ochr, heb amharu dim ar y torgoch. 'Roedd yr eog allan o gyrraedd y groglath, felly dyma sefyll i fyny o'r brwyn. Welodd neb erioed fyddin yn cau eu rhengoedd mor gyflym! Cofiwch, 'roedd yma filoedd ohonynt, ar amrantiad 'roeddynt yn y dyfn yn drifflith drafflith. Beth am yr eog? Y fo oedd y dwytha' i fynd i'r dyfn, ac yn syth i ganol y torgoch fel cyllell i fenyn, a'r rheini yn cau amdano. Aethom yn ôl i'r chwarel. Ar ganiad tri, dyma fynd yn ôl at y pwll yr un mor ofalus, a wir i chi, 'roedd pob rheng yn ôl ar y teneu yn yr un lle, a'r eog yn dal i siglo, a'i gefn allan o'r dŵr. Ddaru ni ddim oedi. Dyma sefyll i fyny a digwyddodd yr un peth mewn eiliad. 'Roeddynt yn y dyfn a'r eog wedi plannu i'w canol. Felly, ym mhwll y Tro Mawr y claddodd rhai o dorgoch Llyn Peris y tymor hwnnw beth bynnag.

'Roedd yn bwrw glaw yn drwm bore wedyn, bwrw trwy'r dydd, a'r afon wedi codi.

Trannoedd aethom i olwg y pwll ond nid oedd yr un gynffon i'w gweld, 'roeddynt wedi gorffen claddu ac wedi dychwelyd yn ôl i'r llyn, a'r eog i'r môr.

**DIWEDD**

**YR ANWELEDIG**
**(Tôn "Mi glywaf dyner lais", gyda ymddiheuriad)**

**Ni fedraf yn fy myw**
**Weld Duw ymysg y drain,**
**Ond gwelaf Iesu bron bob dydd**
**Yn gwisio'i goron ddrain.**

**Ni welaf Dduw roes fod**
**I'r bydoedd ar eu taith,**
**Ond gwelais Iesu tan Ei glwy**
**Mewn breuddwyd lawer gwaith.**

**Ni welais Dduw — sy'n gweld**
**Y tlawd a'i boenus gri,**
**Ond gwelais Iesu fu rhwng dau**
**Yn talu 'nyled i.**

**Methais â chanfod Duw**
**Ar lu wynebau iach,**
**Ond gwelais wyneb Iesu prudd**
**Yng nghystudd plentyn bach.**

**O'm mewn mae Duw yn bod**
**Er chwilio'r gwagle maith —**
**Yr un yw O a'r Iesu cu**
**Fu'n gwisgo'dillad gwaith".**

**Harri Williams**
**Berth, Gerlan.**


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE**

**Cwm-y-glo**

*

**Ffôn : LLANBERIS 814**

*

**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**

# DINORWIG

**YN YR YSBYTY** – Aethpwyd â Mrs. M.J. Jones, 7 Bro Elidir i Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dymunir iddi hi a Mr, John D. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf, sydd yn Ysbyty Bryn Seiont, wellhad buan.

**LLONGYFARCHIADAU** – LlongyfERchir y plant canlynol o Eglwys MC ar eu gwaith yn yr Arholiad Llafar yng nghymanfa Ysgolion Sul Llanberis a Dinorwig ar Fai 1af, yn Capel Coch, Llanberis. **Dan 6 oed:** Arfon Roberts; **Dan 9:** Eric Wyn Jones; **Dan 10:** Alwyn Iwan Jones; **Dan 12:** Marina Bryn Roberts; David Vaughan Jones, Williams Roberts; **Dan 14:** Gwyneth Elizabeth Davies; Olwen Bryn Roberts; **Dan 17:** Annette Bryn Roberts; Glenys Roberts.

**CLWB IEUENCTID** – Dymunir llwyddiant i Albert Jones, Ifor Phillips a Kelvin Pleming,aelodau o'r clwb,yn y gystadleuaeth derfynol genedlaethol o o chwarae dartiau ym Mhen y Bont ar Ogwr ar Mehefin 4. Enillasant gystadleuaeth Gwynedd ym Mhorthmadog yn ddiweddar.

**Y CAE CHWARAE** – Mae Cyngor Arfon wedi cymryd trosodd y Cae Chwarae ym Mro Elidir. Tynnwyd allan y Fantolen Ariannol gan Miss Marian Jones, trysorydd y cyn-bwyllgor, ac y mae i'w gweld yn Swyddfa'r Post, Dinorwig, ac yn addoldai'r ardal er galluogi'r cyhoedd i gael golwg arni.

**YN YR YSBYTY** – Dymunir gwellhad buan i Mr. Derec Williams, Bron Eilian sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon.

**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlir â Mr. John D. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bryn Seiont ar farw ei frawd Mr. T.H, Williams Styd Newton, Llanberis a hefyd a Mrs. Mabel Williams, 28 Rhydfadog, Deiniolen a'r cysylltiadau teuluol ym marw ei phriod Mr. Owen Williams, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Dinorwig. Ef oedd yr olaf o'r ysgolfesitri cyn cau'r ysgol.

**LLONGYFARCHIADAU** – LlongyfERchir Mr. a Mrs. Dave Wood, Fronheulog ar eni mab bychan iddynt.

**EGLWYS SARDIS** – Dydd Sadwrn Mai 7ed teithiodd aelodau Eglwys Sardis yng nghwmni Bedyddwyr Clwt y-bont a Chaernarfon i Gymanfa Ganu Bedyddwyr De Arfon, gynhaliwyd yng Nghricieth dan arweiniad Miss Olwen Lewis, Caergybi. Cafwyd cefnogaeth deilwng i'r cyfarfodydd a mwynhawyd canu o safon uchel.

Yng nghyfarfod y pnawn cyhoeddwyd bod Gwilym Irfon Jones a Ruth Elizabeth Jones ymhlith y plant oedd wedi ennill Seren Aur yn yr **Arholiad Llafar.**



**'CARNIFAL** – **Dydd Coroni'r** Frenhines – P'run o'r triawd hyn oedd fuddugol yng ngharnifal y pentre ym 1952?

**O'r chwith i'r dde:** David Jones, Goronwy Jones (Maes Eilian) ac Emlyn Griffith (Bro Elidir)

**CLWB IEUENCTID** – Nos Lun Ebrill 18 yng Nghanolfan Porthmadog enillodd tri aelod o'r Clwb Ieuenctid Pencampwriaeth Gwynedd gyda dartiau.

Cyflwynwyd medalau iddynt gan Mr. Richard Parry, Trefnydd Ieuenctid. Mehefin 3 bydd Albert Lynes, Ifor Phillips a Kelvin Pleming yn teithio i Ben-y-bont ar Ogwr i gystadlu yn y Gornestau Terfynol.


# Mwy o Weithwyr yr ECO.



LESLIE LARSEN
PRIF OHEBYDD
LLYGAD YR HAUL
PENISARWAUN



IFAN PARRY
GOHEBYDD
A FFOTOGRAFFYDD
YR ECO
CEUNANT
WAUNFAWR 321



GERAINT ELIS
PRIF OHEBYDD
SYCHARTH
BETHEL

# O Gaban y Chwarel

**Tŷ Capel Disgwylfa, Deiniolen.**

**Carwn dynnu sylw darllenwyr yr 'Eco' at y llun o chwarelwyr Caban Mills a ddangoswyd mewn un rhifyn o'r Eco.**


Tynnwyd y llun hwn ar Fai 23ain 1950, a'r achlysur oedd Gwasanaeth Coffa i'r rhai a aberthodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd 1939/45.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchedigion Llewelyn Boyer, E.G. Williams, BA., W. Gwyn Thomas, J.H. Williams, BA ac S.O. Tudor MA,BD. Fe ddadorchuddiwyd y gofeb gan Syr Michael Duff Assheton Smith. Fe chwaraewyd y 'Last Post' a 'Reveille' gan Mr. Tommy Williams, Deiniolen. Llywydd y cyfarfod oedd Mr. John Wyn Owen, Llanrug. Cafwyd anerchiadau gan Mr. O.T. Williams, Mr. H.R. Jones, Mr. Alun Roberts, Parch. J.H. Williams, BA a Mr. John Huw Jones. Cyfansoddwyd y penillion coffa gan Mr. John Evans a Mr. Ifor Williams, y ddau o Ddeiniolen.

Cafwyd y wybodaeth yma trwy garedigrwydd Mr. Ritchie Jones, Bro Rhiwen, Rhiwlas, gan ei fod yn berchennog rhaglen o'r gwasanaeth.

Yn ôl at y llun. Dim ond pedwar o'r rhai a welwch yn y llun sy'n gweithio fel chwarelwyr heddiw, sef Mr. Ritchie Jones, Rhiwlas; Mr. W.O. Williams, Deiniolen; Mr. R.E. Williams, Dinorwig a Mr. O.J. Roberts, Deiniolen.

**W.O.Williams.**



"Ni'th ladd ing,
Ni'th ladd angau."

Gwasanaeth Coffa

am

Fechgyn Caban "Steam Mills"
a aberthasant eu bywydau
1939 – 1945

| | |
|---|---|
| Wyn Griffith. | Griffith Bevan Lewis |
| Arthur Wyn Hughes. | David Closs Morris |
| Owen Wyn Hughes. | James Parry |
| Kenneth Jones. | Thomas Rowlands |
| Ellis Arvon Jones. | Samuel Roberts |
| Edward Jones. | Hughie Thomas |
| David R. Jones. | Ifor Thomas |
| Elfed Jones. | Gwilym M. Williams |
| Charles Jones. | Griffith J. Williams |
| Evan Lewis Jones. | Robert Williams |

Cynhelir y Gwasanaeth yn y Caban, Mai 23ain, 1950


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
LONDON HOUSE
LLANRUG
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!



Am waith adeiladu RHAGOROL
am bris RHESYMOL
cysylltwch â

**B. Kavanagh**

CONTRACTWYR ADEILADU

7 MILLS ROW
BLAENAU FFESTINIOG
*Ffôn : 268*


# Agor Ffiniau'r Gorffennol

**gan Mary Lloyd Williams, BEM**

**FFARWÉL GRYDD BACH**

**Nid am ei fod yn fychan o gorffolaeth y gelwid y diweddar Robert Roberts o'r Waunfawr yn 'Grydd Bach', ond yn hytrach o anwyldeb tuag ato.**

Yr oedd y crydd bach yn ffefryn gan bawb. Cawsai ddigon o waith oherwydd ei fod wedi dysgu cyfrinach cadw busnes yn llwyddiannus trwy fod yn siriol a ffraeth. Y mae gan y Chinead ddihareb fel hyn: 'Ni ddylai dyn nas gall wenu agor siop!'

Yr oedd gweithdy'r Crydd Bach ar yr ochor chwith rhyw hanner y ffordd o'r Groeslon Marc i gyfeiriad y post. 'Rwy'n ei gofio yn dwad yn fân ac yn fuan, gyda sachaid o esgidiau wedi eu trwsio ar ei gefn. Byddai yn eu danfon i'r cartrefi. Yr oedd nod boneddwr yn ei wisg a'i ymddygiad bob amser. I goroni'r cwbl, gwisgai 'bowler hat'.

Fel hyn y canodd fy nhad ffarwel i'r Crydd Bach:

**Gwelsoch o'n dod yn dwt ei drefn**
**A thraed ei ardal ar ei gefn**
**Gan barchus dynnu 'i fowler hat**
**A sychu 'i ddeudroed yn y mat.**

**Unionodd lawer sawdwl cam,**
**I lawer esgid bu fel mam,**
**Mae llawer clem a gwadan gref**
**Dan lawer troed i'w gofio ef.**

**Fe'i cofir gynt yn canu'r bas,**
**A'i lais mor glir â'r awyr las,**
**A'i fysedd sionc ar biano'r hwyr**
**Er gwaetha'r dwbin du a'r cwyr.**

**Ffarwel i gân hen grydd dau blwy,**
**Ni chlyw 'Bryndelyn' mo'ni mwy.**
**Ond os oes piano yn y nef**
**Hi byncia o dan ei fysedd ef.**

**Glan Rhyddallt.**

**Mawrth 1955.**

# LLYFRAU'R LOLFA

Dau lyfr sydd newydd eu cyhoeddi gan Y Lolfa yw 'Himor y Glöwr' gan Edgar ap Lewys a 'Teithiau' gan Tim Saunders.

Hiwmor y Glowr – Cais hynod lwyddiannus sydd yma ar ddarlunio cymdeithas lofäol Cwm Tawe trwy ddiogelu'r hiwmor sydd yn y dafodiaith arbennig yma. Yn ogystal ag adnabod ei ardal a'i bobl – mae Edgar ap Lewys yn llenor wrth reddf. Rhy'r llyfryn hwn oriau o fwynhad i'r darllenydd. Pris: 85c. Y Lolfa.

Teithiau – Dyma ddywed y cyflwyniad am yr awdur, Tim Saunders, BA., (Oxon) (Dopt. Owt Flwyddyn Gynta), BA (Morfilod) (Drwy Ryfedd Wyrth) 24 oed...

Wedi pwdu wrth Orsedd Beirdd Prydain Vawr am iddynt beidio â'i wneud yn dderwydd ETO.

Cernywr yn hoff o ymweld â gwledydd efo problemau tebyg i Gernyw a Chymru."

Diddorol iawn – ac fe allaf ddweud yr un peth am ei lyfr. Pris 75c Y Lolfa.

## DIGRIFWCH DRAENOG

Y diwrnod o'r blaen cafodd Draenog afael ar lyfryn doniol ar y naw sy'n dwyn y teitl 'Hiwmor y Cymry' (Cyhoeddiadau Mei). Casgliad yw o jôcs a straeon o'r ganrif ddiwethaf. Dyma ddwy ohonynt i chi gael rhagflas o'r llyfryn:

**Rhoddi Bil**

"A roddasoch chwi fil i'r dyledwr?" gofynnai cyfreithiwr i'w glient. "Do, syr". "A pha beth a ddywedodd wrthych?" "Efe a ddywedodd wrthyf am fyned at y Cythraul". "A pha beth a wnaethoch wedi hynny?" "Wel, y pryd hwnnw, deuthum atoch chwi, syr".

**Ergyd Farwol**

Llawer o wawd sydd yn cael ei wneuthur o'r Saeson, oherwydd digrifwch eu henwau; ac ym mhlith eraill clywsom yr un a ganlyn:– Yr oedd gŵr o'r enw Botwm (Mr. Button) wedi marw ac anfonwyd at glochydd y plwyf i dorri bedd iddo. Wedi i'r gladdedigaeth fyned heibio, anfonodd y clochydd y bil canlynol i'r weddw: – 'Am wneuthur twll botwm, 6s 8c!'

*Gellwch fenthyca unrhyw un o'r llyfrau a restrir isod drwy'ch llyfrgell leol neu'r Llyfrgell Deithiol.*

*DAVIES, Gareth Alban (Gol)*
**Y Llenor yn Ewrop**

*DAVIES, Pennar*
**Gwynfor Evans**

*DAVIES, T.J.*
**Nabod Bro a Brodorion**

*JENKINS, Emlyn G.*
**Gwennol yn y Tir**

*JONES, G.*
**Pwy a Ŵyr?**

*JONES, Geraint Elfyn*
**Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen**

*JONES, R. Emyr*
**Rhwng Dwy**

*PRITCHARD, Marged*
**Portreadau'r Faner Cyf. III**

*WILLIAMS, J.E.C.*
**Ysgrifau Beirniadol IX**

*WILLIAMS, Rhian*
**Bwyd i Bawb**

# BETWS GARMON

**CANADA** – Deëllir bod Mrs. C. Pritchard, Bryn Derwen, wedi cyrraedd yn ddiogel. Mae ar ymweliad am chwe wythnos â'i merch Margaret a'r teulu yn Ontario.

**JIWBILI** – Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Festri Capel Salem nos Lun Mai 23 trefnwyd i gael parti *'barbecue'* i ddathlu'r Jiwbili. Fe'i gynhelir ar ynys Hafodty nos Iau, Mehefin 2, am 7 o'r gloch. Derbynnir unrhyw rodd mewn arian neu nwyddau yn ddiolchgar gan Mrs. Glenys Williams, Ty'n Weirglodd, Ffôn: Waunfawr 360. Felly cofiwch ddod i'w gefnogi – pawb o Gaea' Gwynion i Fryn Gloch. Mae addewid am wledd o noson hwyliog dros ben.

Mewn pwyllgor chwaraeon ar gyfer Jiwbili Waunfawr a'r Cylch a gynhaliwyd yn Festri Salem nos Iau, Mai 19, trefnwyd i gael chwaraeon i'w cynnal ar Gae'r Ysgol Gynradd Waunfawr i ddechrau am 1.00 pnawn dydd Mawrth, Mehefin 7.

**CROESO** – i Mr. a Mrs. Maxwell a'u dau plentyn bach, maent wedi dod i fyw i Gerrig y Rhyd.

# HUGH OWEN

**"Hugh Owen" (1804–1881) – B.L. Davies (Gwasg Prifysgol Cymru – Pris £1.00)**

**Cyd-ddigwyddiad hapus yn siŵr a barodd i'r llyfryn hwn ddod i'r amlwg yn anterth baldorddi dyfal a checrus y "Ddadl Fawr" ynghylch addysg. Yn ddi-ddadl, ni wnaiff ddrwg yn y byd i ni'r Cymry groesawu llyfr ffeithiol a di-rodres ddigon ei orwelion am un o benseiri mawr y proses democrataidd a roddodd haelioni pwrs y wlad at ofynion cyfundrefn addysg. Er yr holl gyfnewidiadau a ddaeth i ran y drefn honno yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn sicr, i Syr Hugh Owen mae'r clod am wneud yr 'ysgyfarnog' yn werth ei chodi a'i hela.**

**Perthyn y gyfrol hon i'r teulu bach hwylus o gynhyrchion dwyieithog a dreiglodd o'r Wasg a nodir, i'n haelwydydd – ac i'n hysgolion gobeithio. Fel ei ragflaenwyr hwythau, anelodd yr awdur at 'ieuenctid Cymru' fel y dywaid yn ei ragair byr, a da o beth fyddai i'r ifanc a'u harweinwyr ddod i wybod am "gyfraniad enfawr un o Gymry blaenllaw y ganrif o'r blaen".**

Mae lle Hugh Owen yn ddiogel yng nghrebwyll y doeth a'r dysgedig ond hyderaf y bydd i'r 'aneirif lu' o'i ddyledwyr ddod i gydnabod eu dyled drwy hel eu meddyliau uwchben tudalennau'r llyfryn byr a darllenadwy hwn. Er na fu'r "alltud" mawr hwn yn hir yn ei filltir sgwâr, etifedd naturiol oedd o ran meddylfryd a chydwybod gymdeithasol i'w ragflaenydd mwy cartrefol, Griffith Jones o Landdowror, ac erys ei ddylanwad yn ein mysg ers y dyddiau hynny pan nad oedd Coleg Aberystwyth ac Ysgol Caernarfon ond rhan o'r dyheu dyfal a fynnodd dyfu'n realiti 'brics a mortar.'

Bywgraffiad gweddol syml yw cnewyllyn y llyfr a naturiol ddigon hynny wrth feddwl am y farchnad a fwriedir iddo a'r pris rhesymol sydd am sicrhau apêl at honno yn y dyddiau anodd hyn. Canolbwyntir ar weithgarwch a dyfalbarhad rhyfeddol y gŵr a sicrhaodd fwy na Beibl i bobl ei fyd drwy sbarduno'r ceidwadol a'r difenter i ymateb i gri ei genedl am addysg i'r difreintiedig, neu blant y gweithiwr os mynnir. Dichon mai dyma'r rheswm a barodd i'r awdur beidio manylu mwy ar fywyd personol Hugh Owen a felly aberthu rhai elfennau mwy diddan a fuasai'n achub y llyfr rhag mynd yn ormod o gatalog o orchestion sydd a'u hapêl yn fwy at hanes. Ond chwarae teg, amlygwyd y pwrpas yn y 'Rhagair' y cyfeiriwyd ato a nid teg disgwyl mwy yn yr arlwy nag sydd yn yr addewid.

Nid oes nemor ddim newydd yn y llyfr ond ei gamp yw hel y wybodaeth a loffwyd o ddarllen eang i un gyfrol resymol ei phris a synhwyrol ei chynllun. Dyma gyfiawnhad rhoi golau dydd i waith Mr. Davies, mi dybiaf. Amlinellir yn gryno ddigon y daith fawr o'r cychwyn syml ym Môn i'r llwyddiant anghyffredin a gafodd fel gŵr busnes yn Llundain a'r gewynnau a fagodd drwy hynny i allu pwnio'r 'Sefydliad' i symud a gwneud.

O ran diwyg, mae'r gyfrol yn lân ac atyniadol ddigon a'r ychydig luniau sydd ar gael wedi eu prosesu'n ofalus a chlir. Os oes raid hel cwyn, credaf y byddai cloriau gwytnach yn fwy pwrpasol achos mae'n siŵr na fydd dwylo ifanc fawr o dro'n eu gwneud yn fwy bregus nag ydynt yn barod. A siarad â llais profiad, rhaid apelio eto at rwymwyr llyfrau-ysgol i wario ychydig mwy at hel gwasgodau mwy durol i'w cynnyrch er yr ychwanegai hynny ychydig at y gost efallai.

Wedi dweud hyn i gyd rhaid datgan fod y llyfr yn cyflawni ei bwrpas o gofio amcanion yr Awdur, ac yn sicr ni ddylai addysgwyr fod yn gyndyn o'i goresawu i'r ysgolion canys fe geir ynddo gip ar y meddylfryd egwyddorol mawr a greodd gyfundrefn addysgol uwchradd a fu unwaith, os nad heddiw, yn destun eiddigedd i'n cymdogion mwy 'breintiedig' y tu hwnt i'r 'Clawdd'.

I. Huws-Roberts


# E.W.& M.WILLIAMS



## Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN, PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL



# GWILYM JONES
## Monumental Works
## LLANRUG

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol



FFÔN
CAERNARFON 2898

# TAN-Y-COED

**GWYN GRIFFITH** – Ar Fai 5ed bu farw Mr. Gwyn Griffith yn Ysbyty Môn ac Arfon yn 36 ml. oed.

Un o blant Tan-y-coed, Llanrug oedd Gwyn a'i dad yn fab Pant-y-Bryngwyn ar un adeg. Gedy weddw – Mrs. Jane Griffith, Tan-y-Coed, Ffordd Menai, Caernarfon, a thri o blant, Iwan, Dylan ac Osian. Y mae cydymdeimlad yr ardal â hwy ac â'i dad a'i fam Mr. a Mrs. John Owen Griffith a'i unig frawd Owen, yn eu hiraeth a'u galar.

**CROESO** – adre o'r ysbyty a dymuniadau da am adferiad iechyd i Mrs. Catherine Evans, Preswylfa a Miss Nance Williams, Cartref.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. a Mrs. John Humphreys, Caer Maen ar ddathlu ohonynt eu priodas Rhuddem ar Fai 17. Priodwyd hwy yn Eglwys Sant Michael, Llanrug yn 1937. Y mae ganddynt un mab, Y Dr. David John Humphreys, Highgate, Llundain.

**LLONGYFARCHIADAU** – hefyd i Carol Anne Jones, Pant Clyd ar ei llwyddiant gyda'r piano. Enillodd Radd Pedwar gyda theilyngdod. Hefyd enillodd Anne y Gwpan Victrix Ludorum 1977, gwobr am ennill y marciau uchaf mewn Mabolgampau yn Adran Genethod Ysgol Brynrefail.

**PRIODAS** – Llongyfarchiadau a dymuniadau da'r ardal i Mr. a Mrs. Idris Parry Jones ar eu priodas. Priodwyd hwy, ddydd Llun y Pasg, a daethant i fyw i'r Bryngwyn. Croeso cynnes iddynt i'n plith.

**GWASANAETH Y PLANT** – Pnawn Sul diwethaf, Mai 15 cafwyd Gwasanaeth y Plant yng Nghapel Tan-y Coed. Anerchwyd y plant gan eu gweinidog Y Parch. W.O. Roberts. Yn ystod y gwasanaeth gwobrwywyd y plant fu'n llwyddiannus yn Arholiad Llafar ac Ysgrifenedig y Gymanfa ac yn yr Arholiad Sirol.

Gwobrwywyd y plant gan y Parch. W.O. Roberts yn cael ei gynorthwyo gan Enid Wynne, Mrs. Jane Humphreys oedd y cyfeilydd.

**CROESO** – gartref i Geraint Roberts, mab Mr. a Mrs. Roberts, Ty'n Llwyn. Ganwyd Geraint ar Ebrill 7ed eleni a bu mewn ysbyty yn Lerpwl hyd ddydd Iau diwethaf. Erbyn hyn y mae Geraint yn dod yn ei flaen yn ardderchog.

**CYDNABOD GWASANAETH** – Nos Wener, Mai 13eg treuliodd aelodau Eglwys MC Tanycoed, a nifer o gyfeillion o'r tu allan i'r eglwys noson i'w chofio yng Ngwesty Plas Tandinas; pryd y cafwyd swper a chyfarfod yn ei ddilyn i anrhegu Miss Megan A. Humphreys, Cadnant am ei gwasanaeth gwerthfawr am chwarter canrif fel Ysgrifenyddes yr eglwys. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Gweinidog, Y Parch. W.O. Roberts a chyflwynodd siec i Miss Humphreys ar ran aelodau'r eglwys. Wrth wneud hyn mynegodd y gweinidog werthfawrogiad pobl Tanycoed o'i gwasanaeth ffyddlon i'r capel ar hyd y blynyddoedd. Diolchodd yn gynnes iddi, a dymunodd iddi fendith Duw i'r dyfodol. Dymunwyd yn dda hefyd i'w holynydd yn y gwaith – Mrs. Nellie Hughes, 3 Maes gerddi. Cyflwynwyd cyfarchion pellach a dymuniadau da mewn barddoniaeth a rhyddiaith gan, Mrs. Iola Butler, Haddef, Mrs. Megan Williams, Dwyfor, Mrs. Nansi Roberts, Annedd Wen, Miss A Baines Griffith, Stad Minffordd, a Mrs. Miriam Hughes, 'Rallt Deg. Trefnwyd y cyfan gan chwiorydd yr eglwys o dan arweiniad Mrs. Megan Williams, Dwyfor a Mrs. Ceinwen Roberts, Aelybryn.

**CYDNABOD** – Dymuna Miss Megan Humphreys, Cadnant ddatgan ei diolch i aelodau Capel Tanycoed a chyfeillion am eu haelioni ar achlysur ei hymddiswyddiad fel ysgrifennydd yr Eglwys. Diolch i Mrs. Ceinwen Roberts a Mrs. Megan Williams am drefnu noson mor ddifyr ym Mhlas Tan Dinas.


## YM MYD MODURO



Efallai fod eich modur newydd dderbyn Tystysgrif ei deilyngdod i ddefnyddio'r ffordd fawr (MOT). Cofiwch nad yw archwiliad o'r olwyn sbâr yn un o ofynion y prawf o ochr y profwr.

Er hynny mae'n awr yn drosedd cyfreithiol i chwi gario olwyn sbâr sydd â'i deiar heb "1 mm" o ddyfnder yn ei batrwm, dros dri chwarter o led, neu sydd ag unrhyw wall arall a'i gwna'n beryglus i'w ddefnyddio.

Well i chi daflu golwg drosto?

## Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

## Llanberis

Perchennog Aneuryn Jones

FFÔN : LLANBERIS 277

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd CANOLFAN DRECIO Holwch am ein telerau rhesymol




# WAUNFAWR

**CLWB GWYRFAI** – Cynhaliwyd Ffair Wanwyn y Clwb brynhawn Iau, Mai 12, yn Neuadd yr Eglwys a chafwyd cefnogaeth dda.

Enillwyr y Raffl Fawr a drefnwyd gan Mr. J. Awstin Jones oedd: 1: Mr. E. Gwyrfai Jones, Gorwel; 2: Mrs. Williams, Hafod Ruffydd, Beddgelert; 3: Mrs. Owen, Gelnnydd; 4. Mrs. Williams, Ty Capel Nantlle; 5: Mr. A. Griffith, Wenallt, Caernarfon; 6: Miss Elisabeth Owen, 6 Ael-y-Bryn; 7: Mrs. Jones, Tŷ Capel Rhyd-ddu.

Mr. Owen Williams, Gwylfa gafodd y wobr am werthu y rhif mwyaf o dicedi.

Enillwyd Rafflau llai gan Mrs. Lleufer Pritchard, Min y Grug; Mrs. Nessfield, Bryn Argoed a Mrs. Glenys Jones, Rhandir Mwyn.

Gwnaed elw o tua £190 ac y mae'r clwb yn ddyledus iawn i'r swyddogion a'r aelodau a fu'n gweithio'n galed i wneud y ffair yn llwyddiant.

**CLWB Y MAMAU** – Nos Wener, Mai 6, cynhaliwyd noson goffi yn Neuadd yr Eglwys, yr elw at barti Jiwbili holl blant Waunfawr a'r Cylch. Dymuna pwyllgor y clwb ddiolch i'r ardal am ei chefnogaeth. Cafwyd £168 ar y noson a gydag anrhegion y mae'r gronfa erbyn hyn yn £214.

Nos Fawrth, Mai 10, bu pwyllgor agored yn yr Ysgol Gynradd i drafod trefnaiadau'r parti a chafwyd cefnogaeth dda iawn eto ac y mae'r pwyllgor yn falch iawn o'r cymorth a gafwyd. Bydd Pwyllgor eto am 7.30 Mai 24 yn yr Ysgol pan fydd y trefniadau yn cael eu cwblhau.

Diwrnod y Jiwbili fe fydd dau barti, – babanod a phlant dan 12 oed yn y prynhawn, a phlant ysgol o 12 i 18 yn yr hwyr. Fe roddir medal Jiwbili i bob plentyn yn anrheg gan y Clwb ac fe'i cyflwynir ddiwrnod y Jiwbili.

**MERCHED Y WAWR** – Yng ngyfarfod mis Ebrill mwynhawyd noson o Waith Llaw dan ofal Mrs. M. Morgan Jones, Pant Cae Haidd. Dewisodd siarad am frodwaith a throsglwyddodd mewn ffordd ddiddorol y grefft gywrain yma. Llywyddwyd y noson gan Mrs. Nellie Williams a diolchwyd gan Mrs. W. Lloyd Jones.

Gwesteion y te oedd Mrs. M. Slaven, Mrs. M. Lloyd Jones a Mrs. W. Lloyd Jones. Enillydd y Raffl oedd Mrs. Rhian Ellis.

Yn ogystal â'n cyfarfod misol gwahoddwyd rhai o aelodau'r gangen i ymuno a changen Merched y Wawr Benllech nos Fercher, Ebrill 27. Aeth cangen Benllech â hwy mewn bws i weld mannau hanesyddol a diddorol yn yr ardal a rhoi gwledd iddynt a chroeso arbennig o gynnes.

Bu Mrs. Catherine Jones, Brynderwen a Mrs. M. Awstin Jones, Penrhos yn cynrychioli'r gangen yng Nghynhadledd Genedlaethol Merched y Wawr yn Aberystwyth ddydd Sadwrn, Mai 7. Ac ar y Sadwrn, Mai 14 aeth amryw o'r aelodau i Ŵyl Wanwyn Merched y Wawr Gwynedd ym Mangor.

Disgwylir i Gangen Bethel ymuno â ni yng nghyfarfod mis Mai.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Iau, Mai 5, cafwyd adroddiadau o waith y Cyfarfod Cenedlaethol Blynyddol yn Llundain gan Mrs. Florence Treen, Llywydd y Sir, a Mrs. Harlech Jones (Cynrychiolydd Canghennau Caernarfon a Waunfawr). Y Llywydd oedd Mrs. Morfa Evans, Preswylfa a Mrs. K. Wyn Jones, Siop Eilian a diolchodd i'r siaradwyr ar ran yr aelodau. Miss M. Roberts, Glan Aber enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs. Doris Roberts, Dwyros.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Miss Glenda Jones, Ll.B., Lynfod ar lwyddo yn arholiadau'r Cyfreithwyr heb fethu yr un pwnc. Cafodd Miss Jones yrfa ddisglair yn Ysgol Brynrefail, Coleg Aberystwyth a Choleg y Gyfraith Chistleton Hall. Ar hyn o bryd mae'n gweithio yn Wrecsam gyda ffyrm W.H. Edwards, cyn Aelod Seneddol Sir Feirionnydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr. R.D. Roberts, Tŷ Capel Croesywaun am ennill ar 'sgrifennu carol mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gyfarfod Misol Arfon. Ac i Michael Wyn Parry a Gwyn Parry, Ffriddfelen am ennill gwobrau Arholiadau Ysgrythurol yr Henaduriaeth.

A hefyd, i Dafydd Iwan a gafodd y fraint o gael ei ddewis yn feirniad yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd yn Kilarney.

**CROESO** – yn ôl i'r Waun i Mr. a Mrs. William Richard Williams, brawd Mrs. W. Lloyd Jones, Gorwel, o Seland Newydd ac i Mr. a Mrs. Emlyn Jones, (gynt o Fron Olau) o Awstralia.

**YN YR YSBYTY** – Anna Lloyd Hughes, Treflan Isaf a gafodd driniaeth law-feddygol ym Mangor ond sydd erbyn hyn yn Ysbyty Eryri. Erbyn hyn y mae Fflur Llywelyn, Ty Capel Bethel wedi dod adref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad buan i'r ddwy.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. a Mrs. Alfred Jones, Cyrnant Lodge ar enedigaeth merch iddynt. Ganwyd Delyth Mai yn Ysbyty Dewi Sant ar Fai 7.

**EIN DYMUNIADAU GORAU** – i ddau bar ifanc – Mr. a Mrs. William, Anwylfa (Miss Susan Pierce, Bryngwyn) a Mr. a Mrs. William Davies, Carafan yr Haven (Miss Mari Thomas).

**PROFEDIGAETHAU** – Cydymdeimlwn a Miss C.E. Jones, 26 Trefeilian, Mrs. Arianwen Thomas, 7 Bro Waun, Mrs. Edith Ellis, Min y Nant, Mr.G.M. Jones, 15 Bro Waun (colli brawd); Miss Kate Humphreys, Isfryn (colli chwaer) a Mrs. K. Hughes, Llys Meredydd (colli chwaer yng nghyfraith).

**AR Y TELEDU** – Yn rhinwedd ei swydd fel Prifathrawes Ysgol Pendalar bu Mrs. Catherine Jones, Crud yr Awel yn sgwrsio am blant â nam meddyliol arnynt.


DEWCH I

## SIOP THOMAS PRITCHARD

*IRONMONGER*

BIRMINGHAM HOUSE LLANBERIS

Ffôn: 206

AM NWYDDAU A CHELFI O BOB MATH I'R CARTREF

OLL AM BRISIAU RHAD!

BARGEINION TOPDEC bob mis

# LLANRUG

**CYMDEITHAS UNDEBOL – Bryngwyn, Hermon, Pontrhythallt a Thanycoed** – Cyfarfu Pwyllgor o'r Gymdeithas i drefnu rhaglen ar gyfer 1977–78. Y Swyddogion yw: **Llywydd:** Miss M. Humphreys, Cadnant; **Trysorydd:** Mr. Ifor Williams, Gwelfryn; **Ysgrifenyddes:** Mrs. E. Whiteside Thomas, Dolwar. Edrychir ymlaen am dymor llewyrchus. Bydd y Daith Hanesyddol i rannau o Lŷn, yng nghwmni Mr. John Morris Aberdaron yn cymryd lle, ddydd Sadwrn, Mehefin 25ain.

**FESTRI'R PASG** – Cynhaliwyd Festri'r Pasg yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar. Llywyddwyd gan y Rheithor ac offrymwyd y gweddiau ganddo. Dewisodd y Rheithor Miss A.C. Jones, Glanllyn yn Warden iddo ac etholwyd Mr. James Jones, Dwyros yn Warden y Bobl. Derbyniwyd y cyfrifon ac etholwyd Y Cyngor Plwyfol, Eglwysig. Diweddwyd gyda gweddi.

**NOSON GOFFI** – Bu i Undeb y Mamau gynnal Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar, er budd Cronfa Ymchwil i'r Cancr. Rhwng y noson hon a'r Noson Goffi a gynhaliwyd yng Ngwm-y-glo, 'rydym yn falch o gael cofnodi fod can punt bron wedi ei gasglu i'r gwaith da yma. Dymuna Mrs. Williams, Y Rheithordy ddiolch i Mr. Cledwyn Williams am gael benthyg yr ysgol ac i staff y gegin am eu parodrwydd i gynorthwyo, ac i bawb am eu cefnogaeth.

**CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR** – Daeth cynulliad da ynghyd i Noson Goffi olaf y tymor. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel. Anfonwyd cofion at y chwiorydd sydd yn wael a dymuno gwellhad buan iddynt. Trefnwyd i gael Taith Ddirgel ym mis Mehefin. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Elizabeth Jones, Bryn Heli a Mrs. Doris Evans, Gwynfryn. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs. W.O. Roberts, Annedd Wen.

**PLAID CYMRU** – Cynhaliwyd Ffair Wanwyn y Blaid yn yr Ysgol Gynradd ar y 12fed o Fai. Agorwyd gan y gantores Rosalind Lloyd.

**DIOLCH** – Y mae Miss. A.C. Jones, Glanllyn yn ddiolchgar iawn i'r llu cyfeillion a fu yn ymweld â hi ar ôl ei damwain ac i'r rhai a fu'n ymholi yn ei chylch. 'Rydym yn falch o'i gweld wedi gwella mor dda.

**ANGLADD** – Bu farw Mr. John Williams, 49 Glanffynnonn yn ddiweddar a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Rheithor, ef hefyd oedd yn gwasanaethu yn yr Eglwys ac ar lan y bedd. Cymerwyd rhan yn yr Eglwys a'r fynwent gan y Parch. Ganon Alun Jones, Llanberis, cyn-Reithor ein diweddar frawd. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i briod a'i blant ac â'i fam yng-nghyfraith sydd mewn oedran mor fawr.

**CYDYMDEIMLAD** – Estynnwn ein cydymdeimlad fel ardal â Mr. Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr ac annisgwyl o golli brawd. Ar bererindod yng Ngwlad Canaan oedd Mr. Williams pan gafodd ei alw adref oherwydd marwolaeth sydyn ei frawd Mr. O. Williams, Deiniolen. Tra yn cydymdeimlo ag ef eiddunwn iddo bob bendith ar ei ymddeoliad fel Prifathro yr Ysgol Gynradd.

**YN YR YSBYTY** – Dymunir adferiad i Mr. G. Jones-Evans, 39 Bro Rhyddallt sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor, ac i Gwyn, mab Mr. a Mrs. Gareth Roberts, Gregynog sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Keith Jones, Dwyros a enillodd y wobr gyntaf ar Unawd Offerynnol yn Eisteddfod Y Felinheli. Daeth yn drydydd am ganu hefyd.

**MERCHED Y WAWR** – Mrs. E. Whiteside Thomas a Mrs. G.M. Jones aeth i Aberystwyth i Gyngor y Gwanwyn.

Aeth llond bws o aelodau'r gangen i Neuadd y Penrhyn, Bangor i gefnogi wyth o'n haelodau a gymrodd ran yn y Rhaglen Garddio, a ddarlledir ar y 6ed o Fehefin.

Nos Fawrth, 10fed o Fai cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol gyda Mrs. N. Roberts, Annedd Wen yn y gadair. Etholwyd y swyddogion a ganlyn: **Llywydd:** Mrs. Nansi Roberts (am yr ail flwyddyn); **Ysgrifennydd:** Mrs. M. Jones; **Is-ysgrifennydd:** Mrs. Beth Anne Williams; **Trysorydd:** Mrs. Mary Roberts; **Trysorydd Cynorthwyol:** Mrs. Ann Lloyd Griffith; **Gohebydd y Wasg:** Mrs. G.M. Jones; **Dosbarthwr y Wawr:** Mrs. Vera Williams; **Pwyllgor:** Mrs. Davies, Plas Gwyn; Mrs. M. Roberts, Gregynog; Mrs. E. Whiteside Thomas; Mrs. Ann Llwyd.

Cydymdeimlwyd â Mrs. R. Prescott, Disgwylfa ar farwolaeth ei mam yn Nhreuddyn. Rhoddwyd adroddiad o'r Cyngor yn Aberystwyth gan Mrs. G.M. Jones. Penderfynwyd rhoi £10 at Gronfa Plant dan Anfantais. Penderfynwyd mynd am wibdaith fin nos, i Fodeilio, Mon ym mis Gorffennaf a chael swper allan. Gwnaed te gan Mrs. Ceinwen Roberts, Miss Megan Humphreys, Mrs. K.A. Pritchard, Mrs. Williams, Llys Meirion a Mrs. Owen, Trigle. Diolchwyd iddynt gan Mrs. J.C. Williams, Bod Fair.

**NEWYDDION Y SEINDORF** – Cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog, dan nawdd y Seindorf yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Yr Arweinydd oedd Mr. Rol Williams, Waunfawr a Mrs. N. Lovatt, Brwynog oedd yn cyfeilio. Cymerwyd rhan gan y Seindorf dan arweiniad Mr. Boelyn a chafwyd unawdau offerynnol gan Mr. John Jones a Colin Jones. Y Gwr Gwadd oedd Mr. Ritchie Thomas, Penmachno a mwynhawyd ef yn canu ei hen ffefrynnau. Cafwyd eitemau gan Barti Cerdd Dant, Merched y Wawr dan arweiniad Mrs. Lovatt, a Mrs. Catrin Roberts yn cyfeilio, a pharti o'r Ysgol Gynradd dan ofal Miss Gwenan Edwards. Yr unawdwyr oedd Olwen Meredydd Jones a Carol Pugh. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan Mr. Charles W. Jones ac i Mr. Neville Thomas am ei wasanaeth fel ysgrifennydd am rai blynyddoedd. Dymunwyd yn dda i'r ysgrifennydd newydd, Mr. Raymond Ll. Jones. Dymuna Mrs. Heulwen Williams, Cadeirydd Pwyllgor y Merched ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at yr ymborth i'r artistiaid.

Daeth y Seindorf yn gyntaf, allan o un-ar-ddeg mewn cystadleuaeth yn Buxton ddechrau'r mis. Cawsant 93 o farciau a beirniadaeth dda iawn. Llongyfarchiadau iddynt!

**GWASANAETH POBL IFANC, CAPEL MAWR** – Thema'r Oedfa, nos Sul, Ebrill 24ain dan ofal y Gweinidog y Parch. W.O. Roberts oedd "Adnabod Iesu Grist". Y Llywydd oedd Mr. Alfred Parry, Brynheli. Cymerwyd rhan gan: Arfon Owen; Carol Ann Jones; Karen Jones; Michael Lovatt; Gwenan Griffith; Gerwyn Jones; Gwyneth Jones; Richard A. Roberts; Gareth Roberts; Rheon Thomas; Mrs. Mary Roberts; Anwen Jones; David Horman; Myfanwy Jones; Einir Owen; Gwyn Thomas; Richard Ellis Owen; Caron Owen. Cyfeiliwyd gan Mrs. N. Lovatt.

**CYDYMDEIMLAD** – Yn ystod y mis bu farw Mrs. M.H. Williams, 16 Rhos Rug a Mr. Harry Evans, Glanffynnon. Cydymdeimlir â'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

**CYDNABOD** – Dymuna Mr. J. Owen, Fferm Greuor, ddiolch yn gynnes iawn i amryw o gyfeillion am eu dymuniadau da a'u caredigrwydd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty. Croeso adref Mr. Owen.

## *Anrhegu Prifathro*



Ar y 29ain o Ebrill cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn Neuadd Ginio, Ysgol Gynradd, Llanrug i ffarwelio â Mr. C. Williams ei phrifathro am bron i ddeuddeng mlynedd, a oedd hefyd yn ymddeol o'r alwedigaeth. Cyfarfod syml ydoedd pryd y cafwyd eitemau gan bob dosbarth o Safon Un i Bedwar, dan gyfarwyddyd eu hathrawon. Yn ystod yr egwyl rhwng yr eitemau anrhegwyd Mr. Williams gan Mrs. J. Williams ar ran Staff y Gegin, Mr. G. Williams, y gofalwr presennol a Denise Anderson (plentyn hynaf yr ysgol) ar ran y Rheolwyr, Athrawon a Phlant. Talwyd teyrnged i wasanaeth di-flino Mr. Williams ar hyd y blynyddoedd gan Mr. W.A. Jones a siaradai ar ran y Rheolwyr, a Mr. T.H. Jones dros yr Athrawon a'r Plant. Daeth y cyfarfod i derfyn drwy i bawb gydadrodd y Fendith Apostolaidd.

## GEMAU PÊL-DROED I FERCHED
## TLWS ARALL GAN ECO'R WYDDFA

Do, bu ymateb brwd i gais Pwyllgor Carnifal Llanrug i sicrhau timau bêl-droed o ferched i'w cystadleuaeth arbennig. Noddir y gystadleuaeth hon gan *Eco'r Wyddfa* – a chyflwynir tlws i'r tîm buddugol i'w chadw am flwyddyn.

Gwelir timau o Lanberis, Cwm-y-glo, Waunfawr, Deiniolen, Penisarwaun, Llanrug, Bethel a thîm yn dwyn yr enw Angylion Arfon (Arfon's Angels).

Dowch yn lluoedd i'w cefnogi. Fel y bo'ch chi'n gwybod yn union pryd a phle i ddod, dyma'r trefniadau. Oherwydd cymaint o gystadleuwyr bu rhaid cynnal y gystadleuaeth am dair noson.

ROWND GYNTAF – Nos Lun Mai 30ain am 7.00 ar gae pel-droed Llanrug – y timau i gyd. Gemau o chwarter awr bob ffordd fydd y rhain. Os bydd gemau cyfartal, penderfynir ar y canlyniadau gyda chiciadau cosb.

ROWND GYN-DERFYNOL – nos Fercher, Mehefin 1af, i ddechrau am 7.00 ar gae tîm pêl-droed Llanrug, pedwar o'r timau buddugol.

ROWND DERFYNOL – nos Fercher, wythnos y Carnifal, Mehefin 15ed. Dau dîm buddugol yn chwarae am Dlws Eco'r Wyddfa ar gae tîm pêl-droed Llanrug.

**Peidiwch da chi â methu...**

**WYTHNOS GARNIFAL A CHWARAEON LLANRUG**

**MEHEFIN 12 – 18**

- Nos Sul, Cymanfa Ganu Capel MC 8 p.m. Arweinydd: Arwel Jones, Parti Cynfi Deiniolen
- Nos Lun: Tombola 7p.m. Ysgol Gynradd + Lluniaeth
- Nos Fawrth: Disco Unit Three. Ysgol Glanmoelyn D.J. Kevin 7.30-9.00 Dan 11 oed 9.00 – 10.45 Dros 11 oed
- Nos Fercher: Cae Pel-droed 6.00 Taith Gerdded Noddedig 7.00 Pel-droed Clwb Ieuenctid Llanrug v Cywion Llanrug Unedig Rownd Derfynol Tarian Eco'r Wyddfa (Merched dros 18 oed)
- Nos Iau: 6.30 Ysgol Gynradd Pel Rwyd Ysgol Gynradd Llanrug v Ysgol Dolbadarn Llanberis 7.00 Noson Goffi Bwrdd Gwerthu Adloniant
- Nos Wener: Chwaraeon a Mabolgampau Cae Ysgol Brynrefail 5.30 p.m.
- Dydd Sadwrn: Y Carnifal
  1.00 Gorymdaith yn dechrau Pontrhythallt 1.45 Dechrau Beirniadu 2.00 Dechrau'r Ras Ffordd Chwe Milltir
  Beirniaid: John Ogwen, Maureen Rhys, Mr. a Mrs. Neville Roberts, Prestatyn a Mr. Wyn Davies, Caernarfon.
- Nos Sadwrn: Cinio a Dawns 8.00 p.m. Royal Goat Beddgelert
  Pris £3.25 + bws

# CWM-Y-GLO

**DYMUNIADAU DA** – i Melvyn, mab Mr. a Mrs. Aled Evans, Ty Newydd, a Mair Noel, merch Mr. a Mrs. Selyf Hughes, Tan Dderwen, Llanberis, ar eu priodas yn Eglwys Sant Padarn ar y 23ain Ebrill. Pob lwc a hapusrwydd i'r pâr ifanc. Byddant yn cartrefu yn 21 Stryd Edward, Caernarfon.

**CYFARFOD CYHOEDDUS** – Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr ysgol ar Fai 9ed. Daeth Swyddogion o'r Adran Addysg, ynghyd â Chynghorwyr Gwynedd ac Arfon yno i drafod y posibilrwydd o godi canolfan gymdeithasol yn gysylltiedig â'r ysgol i'w defnyddio i holl weithgareddau'r pentref. Mr. Llew Hughes, Hyfrydle oedd y Cadeirydd ac 'roedd nifer dda yn bresennol. Wedi amlinelliad o'r sefyllfa gan y Swyddogion, cafwyd trafodaeth fywiog a phenderfynwyd fod y trigolion yn dal ymlaen i geisio codi £500 yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes mewn llaw, yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ac addawodd cynrychiolwyr yr Adran Addysg wneud a allent o'u hochr hwy.

Yn ail ran y cyfarfod, cafodd y cyhoedd gyfle i holi'r cynghorwyr am faterion llosg lleol, megis tai i'r henoed a'r methedig, a gwelliannau sydd eisoes ar y gweill. Mynegwyd pryder ynghylch llawer agwedd yn ymwneud â dyfodiad y tinceriaid a'u carafanau i Benllyn. Pan symudir hwy – pryd bynnag y bydd hynny – gobeithir ar ran Cwm-y-glo a Bryn'refail, ac yn arbennig breswylwyr Penllyn, na welir llanastr gyffelyb eto yn ein bro.

Mae o leiaf un anhawster mawr yn amlwg, hynny yw – sut yn y byd y medr pentref bach Cwm-y-glo gasglu £500 at gronfa neuadd, a £900 at gyllid yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr un cyfnod o ddwy flynedd. Hynny heb adeilad i gynnal gweithgarwch a fuasai'n ein cynorthwyo i gyrraedd y ddau nod pwysig yma. Oes awgrymiadau?

**CYDYMDEIMLO** – Trist yw meddwl i ni golli tri o drigolion y pentref yn ystod y mis diwethaf, sef Mr. Richard Jones, 11 Dolafon (Dic bach Stabla). Chwarelwr i'r carn, ac yn hynod boblogaidd oherwydd ei wreiddioldeb, ei hiwmor, a'i garedigrwydd. Heb fod yn dda ei iechyd ers tro, cadwodd ei sirioldeb i'r diwedd. Collwyd wedyn Mrs. Heulwen Owen, Perisfa, gwraig dawel, glên, heb air gwael am neb. Bu colli ei phriod Mr. Robert Owen (Lein Wyddfa) mor ddisyfyd, yn groes drom iawn iddi. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Rheithor. Daeth y newydd am farwolaeth Mrs. Rawlings Lynwood, teulu o Saeson a ymgartrefodd yma rai blynyddoedd yn ôl. Heb gael ei chwmni yn ddiweddar cofiwn ei hymateb parod a ffraeth bob amser. Y Rheithor wasanaethai yn ei hangladd. Derbynied y tri teulu ein cydymdeimlad dyfnaf yn eu trallod a'u hiraeth.

**GALARGAN**
**"I DIC BACH STABLA"**

**Hiraeth mawr a hiraeth creulon**
**Hiraeth sydd yn gwasgu'n drwm.**
**Yng nghalonnau holl gyfeillion**
**Am farwolaeth Dic o'r Cwm.**
**Cofio am ei ddifyr straeon**
**'Rydd i'r galon lawer saeth,**
**Cofio eto'i lais yn dadlau,**
**Anodd coelio tewi wnaeth.**

**Trwy ei fywyd bu yn siriol**
**Dyna'i amcan ef o fyw,**
**Gweithio'n ddiwyd ac yn galed**
**Yna'n edrych ar ei Dduw.**
**Cerddodd hefyd lwybrau'r Chwarel**
**Trwy ei oes a cafodd barch,**
**Ninnau heddiw mewn adgofion**
**Gyda deigryn wrth ei arch.**

**Er mai chwith gan bawb ei nabo**
**Ydoedd colli Dic o'r byd,**
**Mae yn awr o sŵn bob trallod**
**Wedi cyrraedd Canaan Glyd.**
**A phan seinia'r Udgorn Nerthol**
**Drwy y nen nes rhwygo'r llawr**
**Fe ddaw yntau heb ddim llygredd**
**O dŷ'r bedd i ddisglair wawr.**

**Twm Bethel**

**GWAELEDD** – Bu Miss Elizabeth Davies, Noddfa mewn ysbyty am gyfnod, ond da gennym ddeall ei bod gartref eto. Felly hefyd Mark, bachgen bach Mr. a Mrs. Elfed Roberts, Craig y Don. Mae Mr. J. Emlyn Watkins, Dolwen a Miss Roseveare, Tan Rhiw mewn ysbytai. Ein cofion atoch i gyd, a'n dymuniadau gorau am lwyr wellhad.

Da gennym weld Mr. Hugh Jones, Seiont House allan eto wedi ei waeledd, a gobeithiwn weld Miss Elizabeth Hughes, Tan y Graig yn ein plith yn fuan, hithau hefyd wedi bod yn cwyno.

**DIOLCH** – Dymuna'r chwiorydd a fu o amgylch yn casglu arian tuag at ddathlu jiwbili'r Frenhines, ddiolch yn gynnes am y derbyniad a'r gefnogaeth ardderchog a gawsant.

**CROESO** – i Darren, mab a aned i Mr. a Mrs. Cledwyn Jones, 2 Dolafon – brawd i Debbi.

**CARNIFAL** – Rhai o'r trefniadau:

Cynhelir Cymanfa Ganu yn gysylltiedig â gweithgarwch y carnifal ar nos Sul, Mehefin 19. Yr arweinydd fydd Irfon Ellis Ysw., Llanberis, a'r cyfeilydd R.H. Parry, Ysw., Llandudno – un o fechgyn y Cwm, ac hefyd Parti Glyn Rhonwy.

**Nos Fawrth, Mehefin 28:** Noson o adloniant yn yr ysgol ar gyfer y Dinasyddion Hyn.

**Nos Fercher, Mehefin 29** : Disco yn yr ysgol i blant o dan 14 oed.

**Nos Iau, Mehefin 30:** Gemau terfynol y Dartiau.

**Sadwrn: Gorffennaf 2:** Carnifal yng nghae chwarae Cwm-y-glo.

**PÊL–DROED** – Daeth tîm yr ysgol Gynradd yn gyfartal ail yng nghystadleuaeth Tarian **Eco'r Wyddfa** – llongyfarchiadau. Bydd tîm o ferched y pentref yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth i dimau merched yn gysylltiedig â Charnifal Llanrug ar y 30 ain o Fai yn ymgiprys am **Dlws Eco'r Wyddfa.**

**LLWYDDIANT** – Derbyniodd Arwel Jones, 4 Bryn Hyfryd Dystysgrif a gwobr gyflwynedig gan y CEGB am y gwaith mwyaf canmoladwy yn ymwneud â Thystysgrif Genedlaethol Gyffredin (OND) mewn Gwyddoniaeth am y flwyddyn 1976. Da iawn Arwel.

*Melfyn Evans a Mair Noel ar achlysur eu priodas.*




CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH I WELD Y *Marina* AR GARREG EICH DRWS.




CAR DA, DIOGEL DIBYNADWY. BRITISH LEYLAND AR EU GORAU! GWARANT 12 MIS – FAINT BYNNAG A DEITHIWCH

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

GAREJ MINFFORDD

BRITISH LEYLAND Morris

BETHEL

PERCHNOGION: T.R. & S. EVANS
FFÔN Y FELINHELI 451

# Dyddiadur y Mis

DYDDIADUR MEHEFIN

*Mercher 1: Deiniolen:* Capel y Tabernacl – Cynhelir Cyfarfod Pregethu am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan Mr. Ifor Bowen Griffith.
*Iau 2: Deiniolen:* Cymdeithas y Chwiorydd Capel Disgwylfa. *Waunfawr* Sefydliad y Merched – Arddangosiad Gwneud Gwallt gan Mr. Derek Rees.
*Betws Garmon:* Parti'r Jiwbili ar ynys Hafodty am 7.00 o'r gloch.
*Gwener 3: Waunfawr:* Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 – yr elw at Gronfa rhai â nam meddwl arnynt.
*Llun 6: Llanberis:* Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
*Mawrth 7: Gŵyl y Jiwbili: Llanrug:* Parti y Jiwbili i blant Heol yr Orsaf yn yr Ysgol Gynradd am 3 o'r gloch, ac i Bensiynwyr Heol yr Orsaf bydd paned o de ac adloniant ysgafn yn yr Ysgol Gynradd am 6.30. *Waunfawr:* Partion y Jiwbili. *Deiniolen:* Clwb yr Henoed. *Llanberis:* Undeb y Mamau: Partion y Jiwbili.

*Mehefin 7 – 11... Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Barri.*
*Mêrcher 8: Llanberis:* Cwmni Drama Indiana Central University, Yr Unol Daleithiau yn perfformio "Heavens Above" yn Eglwys Padarn am 7 o'r gloch. Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
*Iau 9: Llanberis:* Noson Goffi ac Adloniant dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.30. Cymerir rhan gan Mr. Robert W. Robert, Enillydd cenedlaethol, a doniau eraill. *Waunfawr:* Clwb Gwyrfai *Llanrug:* Clwb Blodau'r Grug.
*Gwener 10: Penisarwaun:* Gyrfa Chwist y Jiwbili yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. *Llanberis:* Clwb yr Henoed.
*Sadwrn 11: Deiniolen:* Helfa Drysor dan nawdd Cangen Plaid Cymru.
*Mehefin 12 – 19... Wythnos Garnifal Llanrug.*
*Llun 13: Deiniolen:* Sefydliad y Merched yn cyfarfod pryd y gwahoddir Cangen Penisarwaun i wrando ar adroddiad Mrs. Dilys Williams o'r Cyfarfod Cenedlaethol Blynyddol yn Llundain. *Llanberis:* Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
*Mawrth 14: Deiniolen:* Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr. *Cwm-y-glo:* Undeb y Mamau.
*Mercher 15: Bethel:* Gwibdaith Flynyddol Merched y Wawr. *Waunfawr* Gwibdaith Clwb Gwyrfai i Landudno a Chonwy. *Cwm-y-glo:* Merched y Wawr.
*Iau 16: Dinorwig:* Paned a Bisged a mân Stondinau yn y Ganolfan.

*Gwener. 17: Waunfawr:* Gwibdaith Sefydliad y Merched i Gaer Belan. Taith Gerdded dan nawdd Cangen Plaid Cymru. *Llanberis:* Noson Goffi dan nawdd Clwb Methedig Eryri. Gŵyl Werin Merched y Wawr yn Neuadd Seilo, Caernarfon – mynediad drwy raglen yn unig.
*Sadwrn 18:* Gwibdaith Flynyddol Clwb Eryri – ymweld â Gerddi Bodnant a Llandudno.
*Mehefin 19 – 26 ... Wythnos Garnifal Penisarwaun.*
*Sul 19: Deiniolen:* Eglwys Llanddinorwig – cynhelir Gŵyl Bregethu Flynyddol am 2 a 6 o'r gloch.
*Llun 20 : Llanberis:* Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

*Mawrth 21: Deiniolen:* Clwb yr Henoed
*Mercher 22: Seindorf Arian Deiniolen yn chwarae o flaen y Frenhines ym Mangor. Llanberis:* Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
*Iau 23: Deiniolen:* Noson Goffi ac arwerthiant yn Ysgol Gwaun Gynfi – yr elw er budd Eglwys Y Tabernacl, i ddechrau am 7 o'r gloch. *Waunfawr:* Gwibdaith a Swper Merched y Wawr. *Llanrug:* Taith Ddirgel Cymdeithas y Chwiorydd Capel Mawr.
*Gwener 24: Penisarwaun:* Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. *Llanberis:* Clwb yr Henoed.
*Sadwrn 25: Llanrug:* Cymdeithas Undebol Bryngwyn, Hermon, Pontrhythallt a Tanycoed – taith hanesyddol i rannau o Lŷn yng nghwmni Mr. John Morris, Aberdaron. Gwibdaith Flynyddol Dosbarth Nos Addysg y Gweithwyr (Hanes Cymru). *Llanberis:* Taith Gerdded Noddedig – yr elw tuag at Gronfa y Carnifal.
*Mehefin 26–Gorffennaf 2... Wythnos Garnifal Cwm-y-glo.*
*Llun 27: Llanberis:* Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
*Mawrth 28: Penisarwaun:* Clwb yr Heulwen. *Waunfawr:* Cyngor Cymuned
*Iau 30: Llanberis:* Taith Ddirgel Sefydliad y Merched.

DYDDIAU I'W COFIO


*Gorffennaf 1:* Gwibdaith Flynyddol Merched y Wawr Deiniolen i Fodeilio, Talwrn, Mon.
*Gorffennaf 2:* Gwibdaith Flynyddol Eglwysi Llanberis.
*Gorffennaf 2–9:* Wythnos Garnifal Deiniolen.
*Gorffennaf 10–16:* Wythnos Garnifal Llanberis.
*Gorffennaf 16:* Taith Ddirgel Cangen Plaid Cymru Deiniolen.
*Awst 20:* Cynhelir Ffair Sborion yn "Feed My Lambs" Caernarfon dan nawdd Canghennau Plaid Lafur Dyffryn Peris.

*Manylion i:* Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis, Ffôn: Llanberis 220.

**Cysylltwch a Dafydd Evans, Sycharth, Bryn Eglwys, Penisarwaun os oes unrhyw newydd gennych am chwaraeon yr haf.**

## MWY O WEITHWYR YR ECO!

Myrddin Owen
Trefnydd y Croesair
32 Stryd Fawr
Llanberis



## ATEBION CROESAIR RHIF 13

**AR DRAWS**
3. Caerdydd; 7. Marwor; 8. Begera; 9. Gleision; 11. Winc; 12. Iar Ffesant; 17. Rhwyg; 18. Caethiwed; 19. Sadwrn; 20. Y Melys; 21. Addunedu.

**I LAWR**
1. Cwm-y-glo; 2. Parseli; 3. Croesor; 4. Robin; 5. Ysgawen; 6. Planc; 10. Opera; 13. Arglwydd; 14. Anthemau; 15. Tawelwch; 16. Cadw sŵn; 17. Rhosyn; 18. Canon

**ENILLYDD CROESAIR RHIF 13**

Olwen Lewis, 13, Stryd Ceunant, Llanberis.


**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:**
**CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH; TH**

Gwobr o **£1** i'r ateb cywir cyntaf a dynnir, ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

Drwg gennym eto am y camgymeriad yn Rhif 13 sef rhif 21 ar draws 'Gwneud Llw' (Addunedu) ddylai fod ac nid 'Gwneud Llun'. Fe fu pawb a gynigiodd ddigon craff o weld y camgymeriad a chael yr ateb cywir.

**Anfoner y cynigion fel arfer i:**
Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

# Croesair Rhif 14



**AR DRAWS**
1. Ewin aderyn neu anifail (7)
5. Ystafell waith mewn tŷ (5)
8. Llesmair mewn ŵy gell (5)
9. Aderyn (7)
10. Dicter (9)
12. Llanarmon-yn-... (3)
13. "... 'r afon a'i getyn yn ei geg Ffalabalam badwdl am ba de" (6)
14. Camp 9. (6)
17. Oed cyn heddiw (3)
18. Rhown foliant (9)
20. Nifer o bethau mewn rhestr (7)
21. "... aelwyd pob yn eilddydd" (5)
23. Cosb ariannol (5)
24. Gwŷr doeth (7)

**I LAWR**
1. Heb fod yn eich ennill (5)
2. Yma ac ... (3)
3. Hiraethus (7)
4. Credu (6)
5. Celfydd neu gywrain (5)
6. Llyfr sy'n egluro geiriau a'u hystyron (9)
7. Gŵyl Gristionogol (8)
11. Un sy'n gwledda (9)
13. Bodloni (7)
15. Ffatri laeth (7)
16. Teithio mewn cerbyd (6)
18. Y rhai sy'n perthyn i Walia (5)
19. Sgrechiadau (5)
22. "Mae ... yng ngharchar Rhuthun A'i wedd yn ddigon trist". (3)

ENW.................................................

CYFEIRIAD.................................................

.................................................

*Dychweler i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.*

# CHWARAEON

## TARIAN ECO'R WYDDFA

**Enw Ysgol Llanrug a dorrir ar Darian Pedwar Bob Ochr *Eco'r Wyddfa* eleni, y nhw fu'n fuddugol mewn cystadleuaeth ardderchog yng Nghampfa Ysgol Brynrefail nos Fawrth, Mai'r 17. Fe gofiwch mai Ysgol Dolbadarn a'i henillodd y llynedd, ac nid ar chwarae bach y llwyddwyd i fynd â hi oddi arnynt – 'roedd o leiaf dair ysgol â diddordeb ynddi a dim ond dwy neu dair gêm ar ôl i'w chwarae.**



*Y 36 bachgen fu'n cystadlu am Darian Pedwar Bob Ochr* **Eco'r Wyddfa.**

Daeth chwe ysgol ymlaen i gystadlu â'u chwe pêl-droediwr gorau yn cynrychioli pob un. 'Roedd safon y chwarae yn uchel iawn mewn rhai gemau, a gwelwyd tri neu bedwar pêl-droediwr addawol dros ben. Disgleiriodd Dulwyn John Williams o Benisarwaun yn y gêm gyntaf, ei redeg diflino ef a gwaith dewr ei frawd bach Alwyn yn y gôl fu'n gyfrwng iddynt guro Deiniolen o bedair gôl i un. Malcolm Allen oedd seren ysgol Deiniolen, ac edmygais chwarae cryf David Arfon Jones o Lanberis. Chwarae'n dda fel tîm wnaeth hogia Llanrug, a dyna'r ffordd i ennill, wrth gwrs, nid hawdd fydd anghofio Paul Owen yn y gôl, 'roedd pâr o fenyg duon ar ddwylo hwn, yn union fel y gôl-geidwaid go iawn a welir ar y teledu, ond Seren y noson i mi oedd Neil Rowlands o Gwm-y-glo. Gwnaeth rhai pethau anhygoel â'r bêl, ac 'roedd llygaid Dick Parry'n disgleirio wrth feddwl amdano yn nhîm blwyddyn gynta'r ysgol y flwyddyn nesaf.

'Roedd yn amlwg fod chwarae pêl-droed o dan do yn brofiad newydd a chyffrous i'r mwyafrif o'r hogia, a chredaf eu bod i gyd wedi mwynhau eu hunain. Ein diolch i'r prifathrawon am ddod i gefnogi eu timau, i brifathro Ysgol Brynrefail am gael benthyg y gampfa, ac i Mr. Dick Parry am reoli'r chwarae.

**Y safle derfynol oedd *1. Llanrug, 2. Llanberis, 3. Cwm-y-glo, 4. Deiniolen, 5. Penisarwaun, 6. Bethel.***



*Mr. Twrog Jones, Is-olygydd yr* **Eco** *yn cyflwyno'r Darian i Paul Owen, Dylan Owen, Steven Owen Ian Trevor, Richard Roberts a Keith Williams.*

# Llanberis F.C.

1890 – 1925

**Ysgrifennu rhyw fraslun am gefndir, gweithgareddau, Swyddogion a chwaraewŷr Clwb Pêl-droed Llanberis oedd fy mwriad pan ofynnais i'r pwyllgor grynhoi ychydig o ffeithiau i mi, ond bydd yn rhaid i fanylion o'r fath ddisgwyl tan y mis nesaf, gan i Mr. John Roberts, sy'n aelod am oes o'r Clwb "fynd ati i gael sgwrs gyda hwn a'r llall" a llwyddo i olrain hanes pêl-droed yn y pentref i'w ddechreuad yn 1890: "Gellid yn hawdd ysgrifennu llyfr am hyn", meddai yn ei ragymadrodd, "ond i gylch bychan iawn y buasai'n apelio, gwaetha'r modd." Mae amheuon gen i am hyn, a dyma grynhodeb o'r hyn a ddarganfuodd am y cyfnod i fyny at 1925.**

Yng nghyfnod bri Aston Villa a Phreston North End, tua'r flwyddyn 1890, daeth y Dr. R.H. Mills Roberts, golgeidwad PNE i fyw i Lanberis. 'Roedd gofalaeth ysbyty Chwarel Dinorwig yn un o'i ddyletswyddau, ac ymhen dim amser 'roedd y pentrefwyr wedi manteisio ar ei brofiad i'w helpu i ffurfio tîm pêl-droed. Galwyd cyfarfod yn siop Mr. R.E. Jones, y teiliwr, ac ymhen ychydig iawn o amser yr oedd wyth tîm yn y pentref, yn chwarae mewn cystadleuthau tuag at Gronfa'r Nyrs ac achosion tebyg.

Llosgwyd y gêr i gyd mewn coelcerth anferth pan ysgubodd y diwygiad Methodistaidd drwy'r dyffryn, ond ail-gyfodi'n araf wnaeth y gêm fel y gwanha'r sêl wreiddiol, ac mae enwau rhai o gewri'r cyfnod yn dal yn fyw, rhai fel Wil Bach Pen Bryn, Moi Tap ac Evan R..

Uchafbwynt y tymor fyddai'r gêm flynyddol yn erbyn Ogdens o Lerpwl, ac yn y cyfnod cyn y rhyfel byd cynhaliai'r pentref ddau dîm, un ohonynt, y 'Wolves' i hogia'r pentre, ac un arall yn cynnwys goreuon y cylch. Byddai'r 'challenge match' yn aml rhwng tîm y pentref a Limbo ar Gae Coed neu bont Pentre Castell.

Collwyd llawer o'r hogia yn y Rhyfel Byd, Bob ac Ifan Lloyd, Now Jonah, Bob Cae Glas, Hugh Parry Cwm, Johnnie Pen Bont, ond ar ôl y cadoediad penderfynwyd ail-afael ynddi, ac un o'r gemau cyntaf fu yn erbyn tîm o fyddin Canada ar y Ddôl. Hon hefyd fu'r cyfle olaf i'r pentrefwyr weld rhai o'r 'hen stegiars' yn chwarae, gan fod y to ifanc wedi dod i oed yn ystod y rhyfel, ac yn ymladd am gydnabyddiaeth yn nhimau'r pentre'. 'Tydi o'n rhyfedd fel mae'r hen ddywediad yn gwireddu ei hun ym myd pêl-droed?

'Mae ciw o frid yn well na phrentis'

ac am yn agos i gan mlynedd bu'r un teuluoedd yn magu'r sêr pêl-droed. Glywso chi rhywun yn gofyn, "ydi o cystal â'i daid, tybed?"

Ellis Tudur, Teddy Buck, Tommy a Robin Roberts, Rhys Owen, Ceris a Wil Foulk, Robin John Owen, Wmffra Llan a Wil John Davies oedd cewri y cyfnod yma; ond mae'r cof am geffyl blaen y pwyllgor, sef Robin Thomas yn un mor annwyl. Os byddai brwydr rhwng y 'manager' yma a'i dim, y tîm fyddai'n gorfod hel eu pac.

Mae atgofion Mr. Roberts am gyfnod cynnar pêl-droed yn Llanberis yn fyw ac yn wirioneddol ddiddorol, credaf y gallai gofio enwau'r mwyafrif o'r chwaraewyr, a chefais restr ganddo hyd yn oed enwau'r rhai mwyaf amlwg fu'n chwarae yn eu herbyn.

Yr hanes at y flwyddyn 1925 gefais i ganddo, "caiff rhywun arall gario'r stori ymlaen", a'r argraff a adawyd arnaf oedd mai trasiedi fyddai caniatau i'r hen hanesion yma fynd yn angof – beth am y llyfr, Jack?

# LLANBERIS

**Mae un gêm eto i'w chwarae gan Llanberis, a bydd adroddiad am y tymor yn gyffredinol yn ein rhifyn y mis nesaf. Ym Mhorthmadog ar y 19 o Fai fu eu gêm gynghrair olaf, a daeth tair gôl gan Ray Harding ac un gan Barry Pitts a buddugoliaeth o 4 gôl i 3 iddynt.**

**Y Cwpan Penrhyn fu'n mynd â'i sylw am weddill y mis, curo Pwllheli o 1 gôl i 0 ar Fai 9 efo gôl gan Iwan Evans ac yna cyfarfod â Chaernarfon Utd. yn Llanrug yn y Rownd Gyn-derfynol ar Fai 17.**

**Doedd y cofis ddim cystal tîm ag y disgwylid, ac fe'u baeddwyd o 5 gôl i 0. Iwan Evans, Barry Pitts (2), Gwilym Williams a Ray Harding fu'n llwyddiannus. 'Rwan am Mountain Rangers yn y ffeinal!**

# RHODD



*Mr. Gareth Jones, Swyddog o Frigad Dân Llanberis yn cyflwyno pêl-droed newydd i Mr. T.G. Roberts, rheolwr tim dan 15eg oed Llanberis. Bydd diolch y chwaraewyr i hogia'r injan goch yn amlwg yn eu mwynhad ar y cae. Carem ninnau ddiolch iddynt am sylweddoli fod gwaith da yn cael ei wneud efo ieuenctid y pentref, a bod cefnogaeth o unrhyw fath yn dderbyniol bob amser.*

# LLANRUG

Daeth eu tymor i ben ar Fai'r 19 a Llanrug yn colli'n drwm o 6 gôl i un ym Methesda – diwedd priodol i dymor siomedig. 'Roedd y rhagolygon yn dda ar y dechrau a diddordeb ganddynt ychydig fisoedd yn ôl mewn dwy gwpan a siawns hefyd am y bencampwriaeth; ond aeth rhywbeth o'i le. Bu'n rhaid i aelodau o'r pwyllgor droi allan fwy nag unwaith tuag at ddiwedd y tymor, gan nad oedd digon o chwaraewyr wedi ymateb i'r alwad; ac mae'r ffaith hon ynddi ei hun yn awgrymiadol o ddiffyg yn rhywle.

Mae maes a chyfleusterau ardderchog ar gael yn y clwb, mae ei enw da yn gyfrwng i arwyddo rhai o chwaraewyr gorau'r gynghrair ac mae swyddogion gweithgar ar y pwyllgor. Beth felly aeth o'i le? Bu 23 (yn cynnwys rhai o'r pwyllgor) yn cynrychioli'r clwb yn ystod y tymor, ac yn eu plith lawer â'r gallu ganddynt i fynd ag unrhyw glwb i ben y gynghrair.

Nid lle *Eco'r Wyddfa* yw beirniadu, hyd yn oed pe bai rhywbeth arwynebol i'w feirniadu ond mae'r hen draddodiad mai'r un rhai sy'n gwneud y cwbl yr un mor wir yma. Mae angen llawer mwy o ddiddordeb a chefnogaeth gan bobl y pentref, a daw eich cyfle yng Nghyfarfod Blynyddol y Clwb yn y Sefydliad Coffa, Llanrug nos Fawrth, Mehefin y 21ain.

Ffigurau tîm canol y gynghrair ydi'r rhain:

| ch | e | cyf | colli | ob | ye | pt |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | 16 | 3 | 9 | 100 | 48 | 35 |

a thydi'r rhai sy'n ymwneud â'r cwpanau ddim gwell:

| ch | e | cyf | colli | ob | ye | pt |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 1 | 2 | 4 | 9 | 12 | – |

mae hyn yn gwneud cyfanswm o 35 gêm, a'r unig beth calonogol ydi'r ffaith eu bod wedi sgorio 109 o goliau ynddynt.

Dewch yn llu i'r cyfarfod; beth am gael tîm pen y gynghrair y tymor nesaf.